

RHIF YMCHWIL GYMDEITHASOL: 79/2024
DYDDIAD CYHOEDDI: 04/12/2024

Ymchwil i edrych ar effaith y Cynllun Dychwelyd Ernes ar ymddygiadau prynu alcohol

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg.

This document is also available in English.

OGI © Hawlfraint y Goron ISBN Digidol 978-1-83625-801-8

Ymchwil i edrych ar effaith y Cynllun Dychwelyd Ernes ar ymddygiadau prynu alcohol

Awduron: Clair Prior a Duncan Macaskill, Levercliff Associates



Adroddiad Llawn ar yr Ymchwil: Prior C, Macaskill M (2024). Ymchwil i Edrych ar Effaith y Cynllun Dychwelyd Ernes ar Ymddygiadau Prynu Alcohol
Caerdydd: Llywodraeth Cymru, rhif adroddiad GSR 29/2024.
Ar gael yn: <https://www.llyw.cymru/ymchwil-ar-isafswm-prisio-ar-gyfer-alcohol>

Barn yr ymchwilwyr a fynegir yn yr adroddiad hwn ac nid o reidrwydd farn Llywodraeth Cymru

I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â:

Tîm Ymchwil Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

Llywodraeth Cymru

Parc Cathays

Caerdydd

CF10 3NQ

E-bost: Ymchwil.IechydAGwasanaethauCymdeithasol@llyw.cymru

Cynnwys

Rhestr o dablau.....	2
Rhestr o ffigurau	3
Rhestr termau	5
1. Cyflwyniad/Cefndir	6
2. Methodoleg	9
3. Adolygiad Llenyddiaeth	19
4. Trosolwg: Siopa am Ddiodydd Alcoholaidd	25
5. Yfed Diodydd Alcoholaidd	30
6. Agweddau Meddwl ac Ymddygiadau o ran Ailgylchu	33
7. Ymwybyddiaeth o'r Cynllun Dychwelyd Ernes ac Agweddau Meddwl tuag ato.....	36
8. Effaith ar Ymddygiadau Prynu Alcohol wrth Weithredu Cynllun Dychwelyd Ernes .	51
9. Casgliadau	69
10. Argymhellion ar gyfer ymchwil yn y dyfodol.....	73
11. Cyfeiriadau	76
Atodiad A Canllaw ar gyfer Cynnal Cyfweiliadau Manwl.....	78
Atodiad B Holiadur yr Ymchwil Feintiol	89

Rhestr o dablau

Tabl 2.1 Strwythur Sampl y Cyfweiliadau Manwl	10
Tabl 2.2. Meintiau Sylfaen y Sampl Graidd a'r Ychwanegiadau	16
Tabl 2.3 Lluosydd Amllder Yfed i Gyfrifo Unedau	17
Tabl 2.4 Y Rhaniad Rhywedd ac Oed ym Mhob Segment.....	18
Tabl 3.1: Cynlluniau Dychwelyd Ernes (CDEau) ar gyfer Cynwysyddion Diodydd Untro yn Ewrop: Cymharu'r Prif Nodweddion (Global Deposit Book 2022 Reloop)	20
Tabl 4.1 Prynu Diodydd Alcoholaidd yn ôl y Math o Fanwerthwr o Leiaf Unwaith y Mis	27
Tabl 4.2 Y ganran o'r rheini sy'n yfed pob math o ddiodydd alcoholaidd sy'n ei hyfed y tu allan i'r cartref	29
Tabl 5.1 Canran y rheini sydd â hoff fath o ddiodydd alcoholaidd	31
Tabl 5.2 Mathau o alcohol a yfir o leiaf unwaith y mis.....	32
Tabl 6.1 Y math o lety lle maent yn byw	34
Tabl 7.1 Yn ymwybodol o'r Cynllun Dychwelyd Ernes	37
Tabl 7.2 Bwriad i ddefnyddio'r CDE i waredu cynwysyddion diodydd alcoholaidd lle yfir diodydd yn y cartref.....	44
Tabl 7.3 Bwriad i ddefnyddio'r CDE i waredu cynwysyddion diodydd alcoholaidd lle yfir diodydd y tu allan i'r cartref ond y prynwyd nhw oddi wrth fanwerthwr (e.e. ar gyfer picnic, ar y traeth, mewn parc neu mewn trêh).....	45
Tabl 7.4 Rhwystrau i gasglu a dychwelyd cynwysyddion diodydd alcoholaidd gwag.....	47
Tabl 7.5 Sut roedd ymatebwyr yr arolwg yn disgwyl y byddent yn defnyddio'r talebau.....	50
Tabl 8.1 Canran yr yfwyr cwrw sy'n prynu pob un o'r mathau o becynnau cwrw	58
Tabl 8.2 Cyfrannau'r prynwyr gwin yn yr arolwg sy'n prynu gwahanol fformatiau o becyn gwin.....	64

Rhestr o ffigurau

Ffigur 4.1 Amllder siopa am alcohol yn ôl y math o fanwerthwr	26
Ffigur 4.2 Ble mae diodydd alcoholaidd a brynir oddi wrth fanwerthwyr yn cael eu hyfed ...	28
Ffigur 5.1 Nifer canolrifol y mathau o alcohol a yfir	31
Ffigur 6.1 Tuedd i ailgylchu cynwysyddion diodydd alcoholaidd yn y cartref a'r tu allan i'r cartref	33
Ffigur 7.1 Rhesymau dros deimlo'n gadarnhaol tuag at y CDE arfaethedig (wedi'u codio ar sail ymatebion gair am air)	38
Ffigur 7.2 Rhesymau dros deimlo'n niwtral neu'n negyddol tuag at y CDE arfaethedig.....	38
Ffigur 7.3 Cytuno â'r datganiad 'Rydw i'n teimlo'n ddig bod y cynllun hwn yn cael ei gyflwyno a minnau'n ailgylchu'n barod'	39
Ffigur 7.4 Cytuno â'r datganiad 'Mae'n annheg y byddwn i'n gorfod defnyddio'r cynllun hwn i gael fy ernes yn ôl'	40
Ffigur 7.5 Deall y CDE	41
Ffigur 7.6 Y berthynas rhwng deall y CDE arfaethedig a'r canfyddiadau ohono	41
Ffigur 7.7 Cwestiynau am y ffordd y bydd y CDE yn gweithio mewn perthynas â chynwysyddion diodydd alcoholaidd	43
Ffigur 7.8 Bwriad i ddefnyddio'r CDE i waredu cynwysyddion diodydd alcoholaidd.....	44
Ffigur 7.9 Rhwystrau i gasglu a dychwelyd cynwysyddion diodydd alcoholaidd gwag.....	46
Ffigur 7.10 Rhesymau dros Gymryd Rhan yn y CDE.....	49
Ffigur 8.1 Y ganran o'r holl yfwyr sydd fel arfer yn prynu cynhyrchion cwrw neu seidr mewn aml-becynnau.....	52
Ffigur 8.2 Disgwyliadau o ran ymddygiad prynu cwrw wrth gyflwyno'r CDE: Bwriad i brynu mathau o becynnau.....	53
Ffigur 8.3 Bwriad i ddychwelyd cynwysyddion cwrw aml-becyn bob amser lle byddai'r un fformat yn parhau i gael ei brynu	54
Ffigur 8.4 O'r yfwyr cwrw a fyddai'n prynu llai o gwrw neu'n rhoi'r gorau i brynu cwrw wrth gyflwyno'r CDE, i ba fath o ddiod alcoholaidd y byddent yn newid.....	55
Ffigur 8.5 Cyfran yr holl brynwyr cwrw yn yr arolwg a gredai y byddent yn newid o seidr i fathau alcohol cryfach mewn fformat sengl (gwin, gwirodydd, gwirodlynnau neu win cadarn) wrth gyflwyno CDE.....	56

Ffigur 8.6 Enghreifftiau o resymau dros newid o gwrw i wirodydd, gwin, gwirodlynnau neu win cadarn wrth gyflwyno CDE: Ymatebion testun rhydd yn yr arolwg.....	57
Ffigur 8.7 Canrannau ymatebwyr yr arolwg a oedd yn yfed seidr a chwrw o leiaf unwaith y mis.....	59
Ffigur 8.8 O'r yfwyr seidr a fyddai'n prynu llai o seidr neu'n rhoi'r gorau i brynu seidr wrth gyflwyno'r CDE, i ba fath o ddiod y byddent yn newid.....	61
Ffigur 8.9 Y gyfran o'r holl brynwyr seidr yn yr arolwg a gredai y byddent yn newid o seidr i fathau o alcohol cryfder uchel mewn fformat sengl (gwin, gwirodydd, gwirodlynnau neu win cadarn) wrth gyflwyno CDE.....	62
Ffigur 8.10 Enghreifftiau o resymau dros newid o brynu seidr i brynu gwirodydd, gwin, gwirodlynnau neu win cadarn wrth gyflwyno CDE. Ymatebion testun rhydd yn yr arolwg.....	63
Ffigur 8.11 Bwriad yfwyr gwin i ddychwelyd poteli gwin 75cl bob amser lle byddent yn parhau i'w brynu yn yr un fformat.....	66
Ffigur 8.12 O'r yfwyr gwin a fyddai'n prynu llai o win neu'n rhoi'r gorau i brynu gwin wrth gyflwyno'r CDE, i ba fath o ddiod y byddent yn newid.....	67
Ffigur 8.13 Mathau o botel a brynir fel arfer ar gyfer gwirodydd, gwirodlynnau neu winoedd cadarn.....	68

Rhestr termau

- Acronym/Allweddair Diffiniad
- CDE Cynllun Dychwelyd Ernes
- Y tu allan i'r cartref Alcohol a brynwyd oddi wrth fanwerthwyr a yfwyd y tu allan i amgylchedd y cartref e.e. mewn parciau, ar draethau, ar y stryd, mewn trênn
- Yfwr a niweidir Un sy'n arfer yfed mwy na 35 uned o alcohol yr wythnos yn achos menywod a mwy na 50 uned yr wythnos yn achos dynion
- Yfwr mewn perygl Un sy'n arfer yfed mwy na 14 uned o alcohol yr wythnos, ond llai na 35 uned o alcohol yr wythnos yn achos menywod. Un sy'n arfer yfed mwy na 14 uned o alcohol yr wythnos, ond llai na 50 uned yr wythnos yn achos dynion
- Yfwr cymedrol Un sy'n arfer yfed llai na 14 uned o alcohol yr wythnos
- Meddwl grŵp Lle mae'r awydd am gytgord neu gydymffurfiaeth yn peri i gyfranogwyr ymchwil fynegi consensws barn a mygu barn wahanol
- Cyfranogwr arbenigol Lle mae cyfranogwr mewn grŵp ffocws yn fwy gwybodus o lawer am y pwnc nag eraill yn y grŵp. O ganlyniad i hyn, gallai ddylanwadu ar eraill cyn ymchwilio i'w lefel ymwybyddiaeth flaenorol
- ABV Mae ABV yn fesur o faint yr alcohol pur fel canran o gyfaint cyfan yr hylif mewn diod

1. Cyflwyniad/Cefndir

- 1.1 Mae'n uchelgais gan Lywodraeth Cymru i Gymru ddod yn wlad ddiwastraff erbyn 2050, a hynny'n golygu bod unrhyw ddeunyddiau a waredir yn cael eu hailgylchu a'u hailgylchredeg o fewn economi Cymru. Eglurwyd hyn yn y ddogfen strategaeth [‘Mwy Nag Ailgylchu – Strategaeth i wneud economi gylchol Cymru yn realiti’](#)¹. Er mwyn ategu'r uchelgais hwn, mae Mwy Nag Ailgylchu wedi amlinellu nifer o amcanion i leihau sbwriela, i gynyddu'r amrywiaeth o ddeunyddiau plastig y gellir eu casglu i'w hailgylchu ac i ddatblygu mwy o seilwaith ailgylchu yng Nghymru i'w prosesu. Mae'r Cynllun Dychwelyd Ernes (CDE) wedi'i fwriadu'n benodol i gynyddu'r casglu ac ailgylchu ar gynwysyddion diodydd, gan helpu yn y pen draw i leihau maint y sbwriela o'r math hwn o ddeunydd pacio, sy'n cael ei daflu'n aml fel sbwriel. Mae tystiolaeth o wledydd eraill wedi dangos bod cyflwyno CDE wedi arwain nid yn unig at welliannau o ran ailgylchu ond hefyd at ostyngiad sylweddol yn niferoedd y cynwysyddion diodydd a deflir fel sbwriel, a'r gostyngiadau'n amrywio rhwng a 60% a 80%.
- 1.2 Nodwyd bod CDE yn ffordd bwysig i gyflawni'r uchelgais hwn gan mai oddeutu 70% yw'r cyfraddau ailgylchu presennol ar gyfer cynwysyddion sydd o fewn cwmpas CDE, ond mae gwledydd lle mae CDE effeithiol yn gweld cyfraddau ailgylchu o 90% neu fwy. Os gall Cymru sicrhau cyfraddau ailgylchu sy'n debyg neu'n uwch drwy gyflwyno CDE, bydd hynny'n cyfrannu'n helaeth at ei helpu i gyflawni ei huchelgais. Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i gydweithio â Llywodraeth y DU a'r llywodraethau datganoledig yn yr Alban a Gogledd Iwerddon i ddatblygu CDE, gyda'r bwriad ar hyn o bryd o'i gyflwyno yng Nghymru yn 2027. Ar adeg ysgrifennu'r adroddiad hwn, roedd y diweddariad diwethaf gan lywodraeth ar ddatblygu'r Cynllun Dychwelyd Ernes wedi'i gyhoeddi yn Ebrill 2024: [Datganiad Ysgrifenedig: Y diweddaraf am ddatblygu Cynllun Dychwelyd Ernes \(25 Ebrill 2024\) LLYW.CYMRU](#). Fodd bynnag, gellir cael newid ym mhatrwm y cynllun nes penderfynu arno'n

¹ [Mwy Nag Ailgylchu – Strategaeth i wneud economi gylchol Cymru yn realiti Llywodraeth Cymru](#)

derfynol.² Er bod Llywodraeth y DU, Llywodraeth Cymru a'r Llywodraethau datganoledig yn yr Alban a Gogledd Iwerddon yn cydweithio i gyflwyno'r Cynllun Dychwelyd Ernes, mae'n bosibl y bydd rhai gwahaniaethau rhwng y gwledydd, fel y bwriad i gynnwys cynwysyddion gwydr yng Nghymru (lle mae'n bosibl na fydd gwledydd eraill yn cynnwys y deunydd hwn).

- 1.3 Yng Nghymru, cynigir y bydd y CDE yn ychwanegu ffi safonol ad-daladwy at yr holl gynwysyddion diodydd o fewn ei gwmpas – cynwysyddion plastig PET, dur, gwydr ac alwminiwm (ar gyfer diodydd ysgafn a diodydd alcoholaidd) – y gellir ei dychwelyd mewn rhwydwaith mawr o fannau dychwelyd. Bydd yr un ffi safonol yn cael ei gosod ar yr holl gynwysyddion diodydd, beth bynnag fo eu cyfaint a chryfder alcoholaidd y ddiod sydd ynddynt. Felly, er enghraifft, byddai'r ffi yn cael ei gosod 10 gwaith ar becyn 10 o lager (10 o ganiau), ond dim ond unwaith ar botel o win sy'n cynnwys mwy o alcohol yn ôl cyfaint (ABV). Ni phenderfynwyd eto ar swm yr ernes ond, gan gymryd y byddai'r CDE yn cyflwyno ffi o 20c am bob cynhwysydd, byddai hyn yn cynyddu'r swm a delir yn y man prynu am becyn o 10 o ganiau lager o £11.00 i £13.00, cynnydd o 27% i'r defnyddiwr, tra byddai'r swm o £8.00 am botel o win yn codi i £8.20, cynnydd o ddim ond 2.5%.
- 1.4 Mae'n bwysig bod Llywodraeth Cymru yn cyflwyno CDE fel modd i gyrraedd ei tharged ar gyfer Cymru ddiwastraff ond, wrth wneud hynny, mae angen iddi roi ystyriaeth hefyd i'r effaith ehangach bosibl. Yn benodol, mae Llywodraeth Cymru am ddeall a oes risg a beth fyddai graddau'r risg y byddai'r newidiadau mewn prisiau yn y man prynu yn gallu gwrthweithio yn erbyn nodau ei pholisi bresennol ar Isafbris am Alcohol, fel y mae wedi'i nodi yn [Neddf Iechyd y Cyhoedd \(Isafbris am Alcohol\) \(Cymru\) 2018](#)³, sy'n pennu Isafbris Uned ar gyfer prynu alcohol. Cyflwynwyd polisi'r Isafbris Uned i helpu i ddiogelu iechyd yfwyr sydd mewn perygl ac yfwyr a niweidir (sy'n tueddu i yfed meintiau mwy o gynhyrchion sydd â

² Yn dilyn cwblhau'r adroddiad hwn, mae penderfyniad wedi'i wneud na fydd Cymru bellach yn cymryd rhan yng Nghynllun Dychwelyd Ernes y pedair gwlad ar gyfer cynwysyddion diodydd. Am ragor o fanylion gweler yma [Datganiad Ysgrifenedig: Datblygu Cynllun Dychwelyd Ernes ar gyfer Cymru \(18 Tachwedd 2024\) | LLYW.CYMRU](#). Mae'r ymchwiliad a gyflwynir yn yr adroddiad hwn, sy'n seiliedig ar y model o Gynllun Dychwelyd Ernes a amlinellir yma, yn parhau'n berthnasol o ystyried ymrwymiad Llywodraeth Cymru i gyflwyno Cynllun Dychwelyd Ernes.

³ [Neddf Iechyd y Cyhoedd \(Isafbris am Alcohol\) \(Cymru\) 2018 legislation.gov.uk](#)

chynnwys alcohol uchel ac sy'n isel eu cost). Mae'r Isafbris Uned yn gweithio drwy ddefnyddio fformiwla i gyfrifo'r isafbris ar gyfer prynu alcohol, sy'n cynnwys yr Isafbris Uned (50c), cryfder canrannol yr alcohol, a'i gyfaint. Y risg ddichonol a nodwyd oedd y byddai'r newid yn y pris yn y man prynu o ganlyniad i gyflwyno CDE yn gallu peri bod cynhyrchion uchel eu cryfder mewn un pecyn yn ymddangos yn fwy deniadol o safbwynt y pris manwerthu nag aml-becynnau o gynhyrchion is o ran alcohol ar adeg prynu, gan leihau unrhyw effaith ddichonol o osod isafbris uned. Mae risgiau o'r fath wedi'u nodi, er enghraifft, gan Alcohol Change UK⁴ yn ei ymateb i ymgynghoriad ar CDE yn 2021. Mae'r ymchwil yn amserol yng ngolwg y cymal machlud sydd yn Neddf 2018 sy'n ei gwneud yn ofynnol i Lywodraeth Cymru adolygu gweithrediad y ddeddfwriaeth ac i'r Senedd gytuno i'w hystyngiadau ar ôl Mawrth 2026.

Amcanion yr Ymchwil

- 1.5 Nod craidd yr ymchwil oedd edrych ar yr effaith bosibl o'r Cynllun Dychwelyd Ernes (CDE) ar ymddygiadau prynu alcohol yng Nghymru, ac unrhyw newidiadau a allai ddigwydd o ganlyniad. Yn ogystal â hyn, roedd yr ymchwil wedi ceisio asesu sut byddai cyflwyno CDE yn gallu effeithio ar nodau'r Ddeddf Isafbris am Alcohol.
- 1.6 Y ddau grŵp a nodwyd fel y rhai a allai wynebu'r risg fwyaf o newid ymddygiadau prynu alcohol o ganlyniad i gyflwyno CDE oedd yfwyr mewn perygl ac yfwyr a niweidir, a'r rheini sydd ar incwm is. Felly, mae angen penodol i ddeall sut byddai hyn yn effeithio (os o gwbl) ar ymddygiad y grwpiau hyn.
- 1.7 Yn y bôn, mae'r effaith o gyflwyno CDE ar ymddygiadau prynu alcohol yn debygol o gael ei dylanwadu gan y graddau y bydd defnyddwyr yn cymryd rhan yn y cynllun fel y bwriadwyd. Bydd angen newid ymddygiad er mwyn dychwelyd cynwysyddion ac felly cael ernesau'n ôl, o gymharu â'r cynlluniau presennol ar gyfer ailgylchu wrth ochr y ffordd. Felly, un amcan ychwanegol oedd deall y rhwystrau posibl, yn ogystal â'r ysgogiadau, i gymryd rhan mewn CDE yng nghyd-destun cynwysyddion alcohol yn benodol, yn cynnwys lefelau'r ernes.

⁴ [Ymateb Alcohol Change UK i'r Ymgynghoriad ar CDE, Alcohol Change UK](#)

2. Methodoleg

2.1 Er mwyn cyflawni'r amcanion hyn, defnyddiwyd cymysgedd o ddulliau (ymchwil ansoddol a meintiol), ar ôl cwblhau adolygiad naratif byr ar gyfer yr ymchwil. Roedd hyn yn ymwneud â'r gwersi a ddysgwyd o astudiaethau eraill o effeithiolrwydd CDEau a'r profiad a gafodd gwledydd eraill sydd eisoes wedi rhoi CDE ar waith. Mae'r adolygiad llenyddiaeth wedi'i gynnwys ar wahân yn yr adroddiad hwn ym Mhennod 3, ac mae'r canfyddiadau o'r ymchwil ansoddol a meintiol wedi'u hintegreiddio yng ngweddill yr adroddiad ar ei hyd.

Ymchwil Ansoddol

2.2 Y pwrpas craidd yn elfen ansoddol yr ymchwil oedd deall sut, a pham, y gwneir dewisiadau mewn cysylltiad â phrynu alcohol, a'r ffordd y mae hyn yn ymwneud â chyflwyno CDE. Yn ogystal â hyn, mae'n bwysig deall pam y bydd rhai mathau o ymddygiad yn gallu codi wrth gyflwyno CDE er mwyn rhag-weld yn well sut bydd ymddygiadau penodol yn debygol o ddatblygu a hynny o dan wahanol senarios. Roedd y mewnwelediadau a gafwyd o'r ymchwil ansoddol yn hanfodol wrth lunio'r cynnwys a'r termau a ddefnyddiwyd yn yr ymchwil feintiol a'i dilynodd.

2.3 Amcanion pwysig eraill i'r ymchwil ansoddol oedd:

- Darparu gwybodaeth gyd-destunol am brofiadau bywyd o ran yfed alcohol ac arferion prynu, a sut mae hyn yn ymwneud â CDE.
- Edrych ar yr ymwybyddiaeth a'r dealltwriaeth o CDE ymysg yfwyr (yn enwedig yfwyr mewn perygl ac yfwyr a niweidir).
- Trafod a deall ym mha ffyrdd y byddai patrymau prynu alcohol yn gallu newid e.e., mathau o alcohol, mathau o becyn, ymddygiadau yfed, a'r posibilrwydd o ddefnyddio sylweddau eraill.
- Deall rhwystrau ac ysgogiadau i gymryd rhan mewn CDE ymysg gwahanol fathau o yfwyr alcohol.

2.4 Barnwyd mai cyfweiliadau manwl oedd y fethodoleg fwyaf priodol ar gyfer yr ymchwil hon. Gall alcohol fod yn bwnc sensitif i'w drafod gan gyfranogwyr, ac roedd rhan

graidd o'r sampl yn cynnwys yfwyr mewn perygl neu yfwyr a niweidir a fyddai wedi gallu teimlo'n anghyfforddus wrth siarad yn agored am eu hymddygiadau eu hunain o flaen pobl eraill. Drwy gynnal cyfweiliadau manwl, roedd y tîm ymchwil hefyd yn gallu holi'n fanylach ar lefel yr unigolyn am feysydd a allai fod yn sensitif fel siopa am gynhyrchion isel eu cost, uchel o ran alcohol neu'r ffaith bod eu cyllidebau'n gyfyngedig. Gan mai un pwrpas craidd i'r ymchwil ansoddol oedd edrych ar y dealltwriaeth o'r CDE, roedd y defnydd o gyfweiliadau manwl hefyd yn osgoi'r mater o feddwl grŵp, yn enwedig os oedd y grŵp yn cynnwys 'cyfranogwr arbenigol'.

Tabl 2.1 Strwythur Sampl y Cyfweiliadau Manwl

	Incwm Aelwydydd		
	Isel	Canolig	Uchel
Yfwr cymedrol ⁵	3	3	3
Benywod	1	2	2
Gwrywod	2	1	1
18-34	1	1	1
35-54	1	1	1
55+	1	1	1
Yfwr mewn perygl ⁶	2	2	3
Benywod	1	1	1
Gwrywod	1	1	2
18-34	0	1	1
35-54	1	1	1
55+	1	0	1
Yfwr a niweidir ⁷	2	2	2
Benywod	0	1	1
Gwrywod	2	1	1
18-34	0	1	1
35-54	1	1	1
55+	1	0	0

⁵ Fel arfer, bydd yfwr cymedrol yn yfed llai na 14 uned o alcohol yr wythnos

⁶ Fel arfer, bydd yfwr mewn perygl yn yfed mwy na 14 uned o alcohol yr wythnos, ond llai na 35 uned o alcohol yr wythnos yn achos menywod. Un sy'n yfed mwy na 14 uned o alcohol yr wythnos, ond llai na 50 uned yr wythnos yn achos dynion

⁷ Fel arfer, bydd yfwr a niweidir yn yfed mwy na 35 uned o alcohol yr wythnos yn achos menywod a mwy na 50 uned yr wythnos yn achos dynion

- 2.5 Cynhaliwyd 22 o gyfweiliadau manwl, a'r sampl wedi'i strwythuro ar sail lefelau yfed alcohol a chyfoeth. Ar sail profiad, teimlwyd y byddai'r nifer hwn yn rhoi'r gallu i adnabod y prif themâu ac yn osgoi sefyllfa lle nad yw gwybodaeth newydd yn dod i'r golwg wrth gynnal cyfweiliadau ychwanegol. Am mai un o'r amcanion penodol oedd deall ymddygiadau dichonol ymysg yfwyr mewn perygl ac yfwyr a niweidir (prif darged deddfwriaeth yr Isafbris Uned), cynhaliwyd 13 o'r 22 o gyfweiliadau gydag yfwyr mewn perygl ac yfwyr a niweidir (roedd eraill yn yfwyr cymedrol) a saith gydag yfwyr a oedd ar incwm is.
- 2.6 Cafodd cyfranogwyr eu recriwtio ar gyfer y cyfweiliadau manwl drwy ddull canfod rhydd gan ddefnyddio sefydliad recriwtio arbenigol yng Nghymru o'r enw Fieldmouse. Dewiswyd cyfranogwyr dim ond os oeddent wedi bodloni'r meini prawf gofynnol gyda sgriniwr dros y ffôn a dyrannwyd ymatebwyr ar sail atebion a roddwyd yn yr holiadur sgrinio. Yn ogystal â'r meini prawf ar gyfer y sampl graidd, y meini prawf ychwanegol oedd y mathau o alcohol a yfir, y mathau o fanwerthwyr y prynir alcohol oddi wrthynt, a'r math o ardal lle'r oedd ymatebwyr yn byw (gwledig 8, lled wledig 5, maestrefol/lled wledig 2, maestrefol 3, trefol 4). Roedd y rhain wedi'u cynnwys er mwyn sicrhau bod amrywiaeth o brofiadau wedi'u cynrychioli. Roedd y segmentau'n cynnwys cymysgedd o ryweddau, er bod ychydig yn fwy o ddynion nag o fenywod wedi'u cynnwys yn y segment yfwyr mewn perygl ac yfwyr a niweidir gan fod data Arolwg Cenedlaethol Cymru⁸ yn dangos bod cyfran fwy o ddynion nag o fenywod yn y categorïau hyn. Roedd cynrychiolaeth gyfartal i grwpiau oedran yn y sampl hefyd.
- 2.7 Cynhaliwyd y gwaith maes rhwng dydd Iau 11 Ebrill a dydd Llun 22 Ebrill 2024, ac roedd pob cyfweiliad tua awr o hyd. Er mwyn sicrhau cyfrinachedd, recordiwyd y cyfweiliadau a'u dileu unwaith roeddent wedi'u trawsgrifio. Y gobaith oedd y byddai'r anhysbysrwydd ychwanegol hwn yn gymorth hefyd i gymell cyfranogwyr i siarad yn fwy agored am eu profiad.

⁸ Ffynhonnell: [Arolwg Cenedlaethol Cymru, Llywodraeth Cymru](#)

- 2.8 Er mwyn galluogi cyfranogwyr i gymryd rhan yn yr ymchwil, cynigiwyd yr opsiwn o gynnal y cyfweiliad ar-lein neu wyneb yn wyneb, ar sail eu hanghenion a'u hamgylchiadau fel unigolion. Rhoddwyd dewis hefyd i'r cyfranogwyr i'r cyfweiliad gael ei gynnal yn Gymraeg neu Saesneg. Er bod y dewis hwn wedi'i gynnig, cynhaliwyd yr holl gyfweiliadau manwl ar-lein ac yn Saesneg, ac nid oedd yr un cyfranogwr wedi dewis cael cyfweiliad wyneb yn wyneb neu gyfweiliad yn Gymraeg.
- 2.9 Yn dilyn y gwaith maes, dadansoddwyd y cyfweiliadau manwl ar sail themâu, er mwyn canfod themâu allweddol mewn perthynas â'r amcanion. Edrychwyd ar themâu hefyd yng nghyd-destun y model COM-B. Mae'r model COM-B yn fodel newid ymddygiad sy'n seiliedig ar y ddamcaniaeth bod angen i bobl fod â galluedd, cyfle a chymhelliad i gyflawni ymddygiad o fath penodol⁹. Cyflwynwyd y canfyddiadau allweddol o'r cyfweiliadau manwl i Lywodraeth Cymru cyn symud ymlaen at gam yr ymchwil feintiol.

Methodoleg yr Ymchwil Feintiol

- 2.10 Er bod ymchwil ansoddol yn ddefnyddiol at ganfod themâu, mae'n llai dibynadwy o ran pennu pa mor gyffredin yw'r themâu hyn (boed yn agweddau meddwl, mathau o ymddygiad, ymwybyddiaeth neu ddealltwriaeth) o fewn y boblogaeth dan sylw. Wrth wneud penderfyniadau polisi ar sail y mewnwelediadau a ddarparwyd yn yr ymchwil hon, teimlwyd bod angen cynnal ymchwil feintiol er mwyn lleihau ansicrwydd.
- 2.11 Ei phwrpas hefyd oedd ymdrin ag amcanion ymddygiadol penodol a amlinellwyd yn y briff gan Lywodraeth Cymru gan mai'r teimlad oedd na ellid ymdrin â'r rhain yn ddibynadwy drwy ymchwil ansoddol. Mae'r rhain wedi'u rhestru isod:
- Trafod a fyddai gwahanol lefelau ernes yn debygol o effeithio ar ymddygiad prynu alcohol, ac i ba raddau.
 - Edrych ar yr effaith ddichonol o gyflwyno CDE ar brynu diodydd â chynnwys alcohol is mewn aml-becynnau ac, yn benodol, a fyddai'n gallu cymell pobl i

⁹ I gael rhagor o fanylion: [The behaviour change wheel: A new method for characterising and designing behaviour change interventions | Implementation Science | Full Text \(biomedcentral.com\)](https://doi.org/10.1186/s12916-018-1111-1)

newid eu hymddygiad fel eu bod yn prynu diodydd â chynnwys alcohol cryfach mewn pecynnau sengl, ac i ba raddau.

- Ystyried a oes unrhyw amrywiadau o ran ymddygiad rhwng gwahanol grwpiau o yfwyr a gwahanol lefelau incwm (gan roi sylw'n benodol i yfwyr mewn perygl ac yfwyr a niweidir a'r rheini ar incwm is).

2.12 Er mwyn gwerthuso'r rhain, roedd angen deall sut bydd defnyddwyr yn pwysu a mesur gwahanol nodweddion yn y man prynu lle byddai'r gwahanol briodoleddau hyn yn gallu cynnwys lefelau'r ernes, y math o becyn (aml-becyn, pecyn sengl, maint y pecyn) a'r math o alcohol neu ei gryfder. Teimlwyd mai aneffeithlon fyddai cyflawni hyn ar lefel ansoddol gyda'r holl wahanol drynewidiadau sy'n gysylltiedig, ac ni fyddai meintiau'r samplau yn ddigon mawr i'r canlyniadau fod yn ddibynadwy.

2.13 Ar ddechrau'r prosiect, y bwriad oedd defnyddio dadansoddi ar y cyd yn yr ymchwil feintiol. Mae dadansoddi ar y cyd yn dechneg ystadegol a ddefnyddir mewn ymchwil i'r farchnad i ddeall sut mae defnyddwyr yn rhoi gwerth ar wahanol nodweddion neu briodoleddau mewn cynnyrch neu wasanaeth. Mae'n golygu rhannu'r cynnyrch neu wasanaeth yn wahanol briodoleddau (e.e., pris, cynnwys alcohol, math o alcohol, math o becyn) ac wedyn cyflwyno gwahanol gyfuniadau o'r priodoleddau hyn i ddefnyddwyr. Fodd bynnag, roedd y canfyddiadau o'r ymchwil ansoddol yn awgrymu nad hwn fyddai'r dull gorau i ystyried yr ymddygiadau prynu alcohol a gofnodwyd. Y rhesymau am hyn oedd:

- Dywedodd cyfranogwyr na fyddent fel arfer, wrth siopa, yn dewis rhwng mathau o alcohol, ond o fewn mathau ohono. Felly, ni fydd gorfod dewis rhwng mathau o alcohol yn adlewyrchu o reidrwydd yr amgylchiadau mewn bywyd go iawn. Mae hyn yn bwysig oherwydd os byddem yn gorfodi cyfranogwyr i wneud dewisiadau mewn ffordd sydd heb gyfateb i'r ffordd y maent yn siopa, byddai unrhyw gasgliadau am ymddygiadau dichonol yn gallu bod yn annilys.
- Byddai'r rhan fwyaf o gyfranogwyr yn yfed dim ond dau fath o alcohol fel arfer a dim ond un math mewn llawer achos (eu hoff fath). Byddai eu gorfodi i ddewis rhwng gwahanol fathau o alcohol yn gallu bod yn annilys.

- Roedd cyfranogwyr yn tueddu i ffafrio fformatiau penodol (gan brynu rhai o'r un math bob tro). Felly, er mwyn sicrhau bod yr astudiaeth yn ddilys, roedd angen i'r rhain gael eu cynrychioli yn yr arbrawf dadansoddi ar y cyd. Po fwyaf y nifer o lefelau i'w cynnwys yn ôl priodoledd, mwyaf fydd maint y sampl sydd ei hangen er mwyn cael canlyniad dibynadwy. Byddai hyn yn cynnig mwy o her wrth geisio modelu unrhyw newidiadau dichonol mewn ymddygiad rhwng gwahanol fathau o yfwr neu lefelau o gyfoeth.

Os yw'r arbrawf yn seiliedig ar ddewis, mae angen cyfyngu nifer yr opsiynau a ddangosir i gyfranogwyr ym mhob senario er mwyn gallu ei reoli'n effeithiol. Gwaith heriol fyddai ceisio trefnu arbrawf lle'r oedd cyfranogwyr yn dewis rhwng mathau o alcohol, ac o fewn mathau, mewn un senario.

2.14 Felly, penderfynwyd y byddai'n fwy priodol rhoi prawf ar ymddygiad bwriadedig, gan ofyn y canlynol i ymatebwyr mewn senario 20c a 30c (ar wahân).¹⁰ Dewiswyd y drefn o gyflwyno'r senarios ar hap er mwyn osgoi tuedd ar sail trefn.

- Ar gyfer pob math o alcohol a brynir ganddynt, a fyddent yn parhau i'w brynu?
- Os felly, a fyddent yn parhau i brynu'r mathau o becyn roeddent yn eu prynu ar y pryd neu'n newid i rai gwahanol?
- Pa fathau o becyn y byddent yn newid iddynt?
- A fyddent yn parhau i brynu'r un cyfaint o'r math o alcohol?
- Yn achos y rheini a fyddai'n prynu llai neu'n rhoi'r gorau i brynu, pa fathau o alcohol y byddent yn newid iddynt yn ei le? A pham?

2.15 Defnyddiwyd methodoleg arolwg ar-lein ar gyfer yr ymchwil feintiol. Roedd yr arolwg wedi'i letya ar blatfform o'r enw CMIX sy'n cael ei redeg gan Dynata. Roedd cyfranogwyr yn cael dewis cymryd yr arolwg yn Gymraeg neu Saesneg ac roedd yn addas i bob math o ddyfais. Er mai dim ond 6% sy'n profi allgáu digidol bellach, mae 21% o oedolion¹¹ yn cael mynediad i'r rhyngrwyd drwy ffôn clyfar yn unig.

¹⁰ Cwestiynau 33 i 63 yn holiadur yr arolwg meintiol Atodiad B

¹¹ [Adroddiad Ofcom ar Allgáu Digidol 2022, Ofcom](#)

Felly, roedd y gallu i gynnig yr arolwg ar bob math o ddyfais, yn cynnwys ffôn clyfar, yn gymorth i sicrhau nad yw cyfranogwyr dichonol yn cael eu hallgáu ar y sail hon.

- 2.16 Cafwyd y sampl o sampl o ymatebwyr a ailgyfwelwyd ar gyfer Arolwg Cenedlaethol Cymru yn gymysg â data am baneli. Mae paneli ymchwil yn cael eu rhedeg fel arfer gan sefydliadau masnachol. Bydd cyfranogwyr yn ymuno â phaneli'n wirfoddol i gymryd rhan mewn ymchwil i'r farchnad yn gyfnewid am swm bach o arian am roi o'u hamser. Cymerwyd yn wreiddiol y byddai hanner y sampl yn dod o'r sampl o ymatebwyr a ailgyfwelwyd a hanner o'r data am baneli. Fodd bynnag, am fod nifer yr ymatebwyr a ailgyfwelwyd sydd ar gael â chyfeiriadau e-bost dilys yn gymharol fach, y rhaniad terfynol oedd 4% o sampl Arolwg Cenedlaethol Cymru o ymatebwyr a ailgyfwelwyd a 96% o ddata am baneli. Oherwydd meintiau'r paneli sydd ar gael ar gyfer Cymru, roedd angen defnyddio mwy nag un panel i sicrhau'r nifer gofynnol o ymatebion. Felly, roedd Obsurvant, partner ym maes paneli arolwg, wedi caffael y nifer gofynnol o ymatebwyr o blith yr holl ddarparwyr paneli yn y DU (ac i sicrhau nad oedd ymatebwyr wedi'u dyblygu). Anfonwyd e-bost at ymatebwyr a ailgyfwelwyd ar gyfer Arolwg Cenedlaethol Cymru yn cynnwys dolen i'r arolwg, a chawsant un e-bost dilynol i ddiolch i'r rheini a oedd eisoes wedi cymryd rhan yn yr arolwg ac i atgoffa'r rheini a oedd heb wneud hynny.
- 2.17 Nod y strategaeth samplu oedd cael set ddata graidd o yfwyr alcohol yng Nghymru, gydag ychwanegiadau ar gyfer segmentau lle'r oedd yr amcanion yn galw am wybodaeth benodol am ymddygiad bwriadedig, lefel yfed a chyfoeth. Gwnaed hyn er mwyn sicrhau bod y samplau ar gyfer y segmentau hyn yn ddigon mawr i ddod i gasgliadau.

Tabl 2.2. Meintiau Sylfaen y Sampl Graidd a'r Ychwanegiadau

	Proffil	Nifer
Sampl Graidd	Sampl gynrychiadol o yfwyr alcohol yn byw yng Nghymru (18+ oed)	1011
Ychwanegiad 1	Yfwyr mewn perygl (yn cynnwys yr ychwanegiad)	313
Ychwanegiad 2	Yfwyr a niweidir (yn cynnwys yr ychwanegiad)	200
Ychwanegiad 3	Yfwyr mewn perygl neu yfwyr a niweidir ar incwm is (yn cynnwys yr ychwanegiad)	208
Ychwanegiad 4	Yfwyr ar incwm is (yn cynnwys yr ychwanegiad)	559

- 2.18 Wrth gasglu'r sampl graidd, nodwyd bod nifer yr yfwyr mewn perygl ac yfwyr a niweidir o fewn y sampl yn uwch na'r hyn a gofnodwyd yn y data diweddaraf o Arolwg Cenedlaethol Cymru. Yn y sampl hon, y cyfrannau oedd: yfwyr cymedrol 62%, yfwyr mewn perygl 25%, ac yfwyr a niweidir 13%. Yn y data o Arolwg Cenedlaethol Cymru (heb gynnwys y rheini nad ydynt yn yfed), y cyfrannau oedd 79%, 17% a 3% yn yr un drefn. Teimlai ymchwilyr y gallai hyn fod yn ganlyniad yn rhannol i'r ffaith bod arolwg ar-lein yn ymddangos yn fwy anhysbys. Ar y llaw arall, wrth ddefnyddio techneg ar gyfer casglu data dros y ffôn neu wyneb yn wyneb, gallai cyfranogwyr fod yn fwy amharod i ddatgelu lefelau yfed gwirioneddol wrth siarad yn uniongyrchol â chyfwelydd. Hefyd, yn yr arolwg ar CDE, roedd cwrw cryf a mathau o seidr sydd ag ABV uwch (seidr premiwm/rhywiog neu uchel ei gryfder) wedi'u rhoi ar wahân i gwrw a seidr 'safonol', fel bod modd gwneud asesiad llawn o'r unedau a yfwyd yn y categori cwrw a seidr. Roedd gwirodydd, gwirodydd neu goctêls parod i'w hyfed (RTDs), a gwirodlynnau wedi'u rhoi ar wahân hefyd yn yr ymchwil hon wrth holi am amllder yfed a meintiau a yfir. Mewn adroddiad yn 2020 gan y Sefydliad Astudiaethau Alcohol a Public Health England¹² dadleuwyd bod yr amcangyfrifon o lefelau yfed mewn data swyddogol yn is o bosibl na'r lefelau gwirioneddol (yn cofnodi dim ond 55% i 60% o'r lefelau gwirioneddol).
- 2.19 Diffiniwyd y lefel yfed drwy broses aml-gam, gan ddilyn y fethodoleg a ddefnyddiwyd yn [Arolwg Cenedlaethol Cymru](#)¹³. Roedd cwestiynau wedi'u cynnwys yn yr holiadur i ganfod:

¹² [Measure for measure: calculating alcohol consumption - Institute of Alcohol Studies \(ias.org.uk\)](#)

¹³ [Arolwg Cenedlaethol Cymru | LLYW.CYMRU](#)

- Amllder yfed alcohol yn gyffredinol
- Amllder yfed pob math o alcohol a yfir
- Y meintiau a yfir fel arfer bob tro yr yfir y math o alcohol.

Roedd yr unedau wedi'u cyfrifo wedyn drwy gymryd yr unedau alcohol sydd yn y meintiau a yfir fel arfer, e.e. bob tro, er mwyn cael amcangyfrif o nifer yr unedau a yfir bob wythnos (e.e., 2 wydraid mawr o win, 2 x 3 uned = 6 uned) a defnyddio'r lluosydd amllder isod:

Tabl 2.3 Lluosydd Amllder Yfed i Gyfrifo Unedau

Amllder yfed	Ffactor Lluosi
Bron pob dydd	7
5 neu 6 gwaith yr wythnos	5.5
3 neu 4 gwaith yr wythnos	3.5
Unwaith neu ddwy yr wythnos	1.5
Unwaith neu ddwy y mis	0.375
Unwaith bob dau fis	0.115
Unwaith neu ddwy y flwyddyn	0.029

2.20 Ar gyfer y sampl graidd, y nod oedd cael sampl gynrychiadol o yfwyr mewn termau demograffig craidd (h.y., oed a rhywedd). Gadawyd i segmentau eraill gymryd eu lle'n naturiol.

Tabl 2.4 Y Rhaniad Rhywedd ac Oed ym Mhob Segment¹⁴

	Sampl graidd	Yfwyr a niweidir (yn cynnwys ychwanegiad)	Yfwyr mewn perygl (yn cynnwys ychwanegiad)	Yfwyr cymedrol	Incwm isel (yn cynnwys ychwanegiad)	Incwm isel ac yfwyr mewn perygl neu yfwyr a niweidir (yn cynnwys ychwanegiad)	Yfwyr mewn perygl neu yfwyr a niweidir (yn cynnwys ychwanegiad)
Maint y sampl	1011	200	313	623	559	208	513
Rhywedd							
Gwrywaidd	50%	56%	59%	43%	41%	49%	58%
Benywaidd	49%	45%	41%	56%	58%	51%	42%
Hunaniaeth arall	0%	0%	0%	1%	0%	0%	0%
Oed							
18-34	27%	35%	32%	24%	30%	37%	33%
35-54	31%	42%	34%	30%	35%	37%	37%
55+	42%	23%	34%	46%	35%	26%	30%

2.21 Dadansoddwyd y data meintiol ochr yn ochr â'r canfyddiadau cychwynnol o'r ymchwil ansoddol. Darparwyd canfyddiadau ar lefel cyfanswm ac ar gyfer is-grwpiau lle gwelwyd gwahaniaethau o arwyddocâd ystadegol ar y lefel hyder o 95% (lle'r oedd gwerth p yn $<.05$). Defnyddiwyd prawf pob pâr¹⁵ i asesu gwahaniaethau rhwng is-grwpiau. Er enghraifft, ar gyfer yfwyr mewn perygl neu yfwyr a niweidir a phobl sydd ar incwm isel ac yn ôl unrhyw gategori demograffig craidd.

2.22 Dangosir data meintiol ar gyfer y sampl graidd a'r is-grwpiau perthnasol. Wrth adrodd ar y sampl graidd, nid ydym wedi cynnwys unrhyw ddata o ychwanegiadau ac mae'n adlewyrchu'r holl yfwyr. Mae hyn yn wir hefyd am categorïau demograffig craidd rhywedd ac oed, lle mae'r data wedi'u seilio ar y sampl graidd yn unig. Dim ond yn achos yr is-grwpiau canlynol (lle'r oedd angen cael rhai ymatebion ychwanegol i gynyddu'r sampl) y mae ychwanegiadau wedi'u cynnwys: yfwyr a niweidir, yfwyr mewn perygl, yfwyr a niweidir neu yfwyr mewn perygl, yfwyr ar incwm isel, ac yfwyr mewn perygl ac yfwyr a niweidir ar incwm isel.

¹⁴ Mae'n bosibl na fydd y cyfanswm yn dod i 100% o ganlyniad i dalgrynnu

¹⁵ Mae'r prawf pob pâr am arwyddocâd yn ddull ystadegol a ddefnyddir i gymharu cymedrau gwahanol grwpiau i ganfod a oes gwahaniaethau rhyngddynt sydd o arwyddocâd ystadegol

3. Adolygiad Llenyddiaeth

- 3.1 Mae Cynlluniau Dychwelyd Ernes (CDEau) wedi'u bwriadu i gasglu niferoedd mawr o gynwysyddion diodydd i'w hailddefnyddio a'u hailgylchu at safon uchel. Drwy'r systemau hyn, bydd cwsmeriaid yn talu ernes fach wrth brynu can neu botel ac yn ei chael yn ôl pan fyddant yn dychwelyd y cynhwysydd i bwynt casglu ar gyfer ei ailgylchu.
- 3.2 Cafwyd ymchwil helaeth i CDEau gan amryw o sefydliadau nid-er-elw, ymgynghoriaethau arbenigol a gweithwyr academiaidd, a'r rhain yn ymddiddori gan mwyaf mewn materion cynaliadwyedd. Mae nifer o'r adroddiadau'n canolbwyntio ar effeithiolrwydd gwahanol fathau o gynllun o ran cynyddu niferoedd y cynwysyddion diodydd a gesglir i'w hailddefnyddio neu eu hailgylchu at safon uchel, ar yr effaith ar werthiant diodydd yn gyffredinol ac ar gyfraddau cyfranogi defnyddwyr. Prin iawn yw'r astudiaethau sy'n monitro canlyniadau anfwriadol o weithredu cynlluniau o'r fath ac, yn benodol, yr effaith ar yfed alcohol.
- 3.3 Lanswyd nifer o gynlluniau ledled y byd yn ystod y blynyddoedd diwethaf. Er 2018, mae Malta (2022), Gorllewin Awstralia (2020), Victoria (2023), Twrci (2023), Rwmania (2023), Slofacia (2022), Latfia (2022), Jamaica (2021), Hwngari (2024) ac Iwerddon (2024) wedi rhoi CDE ar waith. Bwriedir lansio rhagor o CDEau yn Singapore, Seland Newydd, Portiwgal, Lwcsembwrg ac Awstria. Mewn adroddiad diweddar gan Reloop,¹⁶ nodwyd bod cefnogaeth gryf gan y cyhoedd i systemau CDE mewn nifer o wahanol wledydd rhwng 2003 a 2023. Yng Nghymru, roedd adroddiad a gomisiynwyd gan Lywodraeth Cymru¹⁷ wedi dangos bod bron tri chwarter yr oedolion a gymerodd ran mewn arolwg yn gefnogol i'r syniad o CDE.
- 3.4 Mae Ffigur 3.1 yn cymharu prif nodweddion y CDEau sydd ar waith ledled Ewrop. Mae'r gyfradd dychwelyd (meintiau neu niferoedd y deunydd o gynwysyddion diodydd a gesglir yn ôl pwysau neu nifer yr unedau, wedi'i mynegi fel canran o faint y deunydd cynwysyddion diodydd a roddwyd ar y farchnad, heb gynnwys allforion)

¹⁶ [Public support for deposit return systems. Reloop](#)

¹⁷ [Adroddiad Cymru: Ymchwil defnyddwyr i lywio dyluniad cynllun dychwelyd ernes effeithiol. Fitzpatrick, A., Jouahri, S., McGee, A. a Roberts, N., Kantar](#)

ar gyfer y rhan fwyaf ohonynt yn gymharol uchel, sef oddeutu 90%. Yr unig eithriad yw'r Iseldiroedd gan ei bod wedi ehangu ei chynllun i gynnwys poteli bach yn 2021 er mwyn cynyddu'r gyfradd dychwelyd. Mae'r rhan fwyaf ohonynt yn defnyddio gwerth ad-dalu penodol, ac maent yn cwmpasu cynwysyddion plastig, metel a gwydr ac mae'r rhan fwyaf o ddefnyddwyr yn dychwelyd pecynnau i fanwerthwyr.

Tabl 3.1: Cynlluniau Dychwelyd Ernes (CDEau) ar gyfer Cynwysyddion Diodydd Untro yn Ewrop: Cymharu'r Prif Nodweddion (Global Deposit Book 2022 Reloop)¹⁸

Gwlad (Poblogaeth)	Cynwysyddion o dan y CDE	Gwerth yr Ad-daliad	Ernesau heb eu Had-dalu	System Ad-dalu	Cyfradd Dychwelyd - Cyfanswm
Croatia (4.1m)	Plastig, metel, gwydr	Penodol: 0.50 HRK	Gweithredwr y System	Dychwelyd i fanwerthwyr	91% (2020)
Denmarc (5.8m)	Plastig, metel, gwydr	Amrywiadwy	Gweithredwr y System	Dychwelyd i fanwerthwyr	93% (2021)
Estonia (1.3m)	Plastig, metel, gwydr	Penodol: €0.10	Gweithredwr y System	Dychwelyd i fanwerthwyr	89% (2020)
Gwlad yr Iâ (0.4m)	Plastig, metel, gwydr	Penodol: 18 ISK	Gweithredwr y System	Dychwelyd i ddepo	91% (2021)
Latfia (1.9m)	Plastig, metel, gwydr	Penodol: €0.10	Gweithredwr y System	Dychwelyd i fanwerthwyr	Amherthnasol
Lithwania (2.8m)	Plastig, metel, gwydr	Penodol: €0.10	Gweithredwr y System	Dychwelyd i fanwerthwyr	90% (2021)
Malta (0.5m)	Plastig, metel, gwydr	Penodol: €0.10	Gweithredwr y System	Dychwelyd i fanwerthwyr	Amherthnasol
Norwy (5.4m)	Plastig, metel	Amrywiadwy	Gweithredwr y System	Dychwelyd i fanwerthwyr	92% (2021)
Sweden (10.4m)	Plastig, metel	Amrywiadwy	Gweithredwr y System	Dychwelyd i fanwerthwyr	88% (2021)
Y Ffindir (5.5m)	Plastig, metel, gwydr	Amrywiadwy	Gweithredwr y System	Dychwelyd i fanwerthwyr	96% (2021)
Yr Almaen (83.2m)	Plastig, metel, gwydr	Penodol: €0.25	Cynhyrchwyr a manwerthwyr (yn achos labeli preifat)	Dychwelyd i fanwerthwyr	98% (2021) (Amcangyfrif)
Yr Iseldiroedd (17.5m)	Plastig, metel (caniau)	Penodol: €0.25	Cynhyrchwyr/ Dosbarthwyr/ Mewnforwyr	Dychwelyd i fanwerthwyr	70% (2021)

3.5 Yn ôl Reloop,¹⁹ mae'r cyfraddau dychwelyd mewn gwledydd Ewropeaidd yn well na'r rheini yn Awstralia ac UDA ac maent yn dod i'r casgliad bod hyn yn ganlyniad i'r ffaith bod yr ernes yn uwch. Mewn ymchwil gan Eunomia²⁰ i Ernesau Dychwelyd yn yr Iseldiroedd ac yn eu hasesiad o'r CDE arfaethedig ar gyfer casglu caniau

¹⁸ Deposit return systems: How they perform. RELOOP

¹⁹ [Deposit return systems: How they perform. RELOOP](#)

²⁰ [Eunomia Deposit Return in Netherlands](#)

diodydd, nodwyd bod pedwar ffactor sy'n cyfrannu gyda'i gilydd at greu'r profiad defnyddiwr sydd ei angen mewn cynllun perfformiad uchel:

- Gwerth yr ernes, sy'n pennu'r cymhelliant economaidd i gymryd rhan.
- Bod cyfleoedd hwylus dros ben ar gyfer dychwelyd ac ad-dalu, yn cynnwys nifer absoliwt y manau dychwelyd a lleoliad daearyddol y manau dychwelyd mewn perthynas â mathau eraill o ymddygiad pob dydd, yn ffactorau hanfodol wrth bennu'r cyfleustra i ddefnyddwyr.
- Cynllun cyson a syml i'r system a fydd yn hwyluso dealltwriaeth y cyhoedd a'u cymhelliant i ddefnyddio'r CDE.
- Cyfathrebu clir (yn cynnwys ymgyrchoedd, labelu a seilwaith gweladwy) i ategu'r ffactorau sydd wedi'u nodi uchod.

3.6 Mewn adroddiad gan Kükenthal a'i gydweithwyr,²¹ awgrymwyd bod cynlluniau o'r fath yn dibynnu am eu llwyddiant ar y gallu i bennu'r ffi ernes sydd orau i greu cymhelliant ariannol effeithiol heb gynyddu'r pris prynu cychwynnol yn fwy nag sydd angen. Nodwyd yn eu dadansoddiad Parodrwydd i Dalu fod gwerth yr ernes yn cael effaith negyddol gryf ar y parodrwydd i dalu ar gyfer deunyddiau cynwysyddion o bob math, a hynny'n awgrymu bod gweithredoedd ailgylchu defnyddwyr yn cael eu hysgogi gan gymhellion ariannol ac mai po uchaf yw gwerth yr ernes, mwyaf parod fydd dinasyddion i ddychwelyd eu cynwysyddion diodydd. Roedd ffactorau agwedd a demograffig-gymdeithasol, fel oed, incwm a nifer y poteli a brynir bob wythnos, hefyd yn cael effaith ar y parodrwydd i dalu yn achos rhai deunyddiau. Roedd yr astudiaeth wedi canfod hefyd mai'r rhwystrau pwysicaf i'r CDE yw diffyg gofod yng nghartrefi pobl i storio'r cynwysyddion a diffyg ymddiriedaeth yn y system ailgylchu yn gyffredinol. Mae hyn yn dangos, er bod angen gosod yr ernes ar lefel briodol i ysgogi ymddygiad cadarnhaol, fod ffactorau agwedd a demograffig-gymdeithasol hefyd a allai effeithio ar gyfranogiad defnyddwyr ac y byddai'r rhain, yn ogystal â'r pris, hefyd yn gallu arwain at ganlyniadau anfwriadol o ran mathau penodol o ymddygiad mewn perthynas ag yfed alcohol.

²¹ [Kükenthal, V.C. et al. \(2023\) 'Optimising Recycling Policy in the UK: The UK's Deposit Return Scheme'.](#)

- 3.7 Y casgliad mewn adroddiad gan Reloop a'r Sefydliad Ailgyrchu Cynwysyddion²² oedd nad oedd yr un astudiaeth achos a oedd yn darparu tystiolaeth bendant a awgrymai fod cyflwyno neu ehangu CDE yn achosi gostyngiad yng ngwerthiant diodydd ac y byddai unrhyw newidiadau'n gallu bod yn ganlyniad i nifer mawr o ffactorau cymhleth. Un o'r rhagdybiaethau a drafodwyd ganddynt yw bod gwerth ernes o €0.10 i €0.25 yn un y bydd defnyddwyr yn sylwi arno ac yn peri iddynt yfed llai neu newid eu hymddygiad yfed. Fodd bynnag, maent yn datgan bod yr honiad hwn yn gamarweiniol a'i fod yn anwybyddu un ffactor hanfodol: yn wahanol i drethi, mae ernesau'n bethau dros dro ac yn cael eu had-dalu'n llawn wrth ddychwelyd y cynhwysydd diod. Felly, gan gymryd bod y dull ad-dalu'n gyfleus ac yn hygyrch, nid yw defnyddwyr yn colli nac yn ennill o ran eu gwariant net felly, wrth iddynt ddod i arfer, mae'n bosibl na fydd hyn yn achosi newid hirdymor yn eu hymddygiad ac felly y bydd llai o ganlyniadau anfwriadol.
- 3.8 Yn rhan o'r gwerthusiad parhaus o'r ddeddfwriaeth Isafbris am Alcohol gan Lywodraeth Cymru, cafwyd adroddiad interim²³ yn defnyddio data gan Kantar i ymchwilio i weld a oedd defnyddwyr yng Nghymru wedi troi oddi wrth un math o alcohol at un arall yn dilyn cyflwyno Isafbris Uned, ac a oeddent wedi prynu mwy neu lai mewn categorïau alcohol/diodydd penodol. Roedd yr astudiaeth yn cynnwys data am Loegr i ddibenion cymharu. Roedd ymateb y defnyddiwr i'r cynnydd mewn prisiau yn cael ei effeithio gan ei ddewis o ddiod a pha mor gryf yw ei ymlyniad wrtho. Yn dilyn cyflwyno'r Isafbris Uned, roedd Kantar wedi nodi dau wahanol fath o ymddygiad. Yn achos lager, roedd y dadansoddiad o newid yn dangos bod pobl a brynai lager cyn cyflwyno'r Isafbris Uned yn prynu mwy ohono ar ôl cyflwyno'r Isafbris Uned yn y ddwy wlad (Mitchell et al, 2022). Roedd y dadansoddiad o newid hefyd yn adrodd bod defnyddwyr yn prynu llai o seidr ar ôl cyflwyno'r Isafbris Uned, a bod defnyddwyr yn newid o seidr at nifer o wahanol fathau o ddiodydd (yn dangos llai o ymlyniad), yn cynnwys lager, gwirodydd a gwin cadarn (Mitchell et al, 2022). Oherwydd cyfyngiadau'r data, fodd bynnag, nid oedd modd canfod a oedd llai o brynu ar y brandiau cryfder uchel, isel eu pris yn benodol neu ar fathau o seidr yn

²² [The Impact of Deposit Return Systems on Beverage Sales. Reloop.](#)

²³ [Gwerthuso'r Isafbris am Alcohol yng Nghymru – Adroddiad Interim ar Ymchwil gyda Manwerthwyr a Dadansoddi Meintiol. Llywodraeth Cymru.](#)

gyffredinol. Fodd bynnag, mae'r canlyniad cyntaf yn gyson ag effeithiau disgwylidig yr Isafbris Uned. Mae'r canfyddiad hwn yn cyd-fynd â'r gostyngiad yng nghyfaint y seidr (mewn litrau) a brynwyd gan aelwydydd yng Nghymru o gymharu â Lloegr. Felly, mae'n debygol bod ymlyniad a ffafriaeth (ai hon yw'r hoff ddioid alcoholaidd) yn effeithio ar y newid rhwng yfed gwahanol fathau o alcohol.

- 3.9 Mewn astudiaeth gan London Economics²⁴ yn 2020, adolygwyd yr effaith o wahanol fathau o ffi ernes ar ymddygiadau defnyddwyr a dangoswyd bod y galw am ddiodydd gan ddefnyddwyr yn gallu dibynnu ar y ffordd y maent yn edrych ar y ffi ernes ac ar eu tueddfryd at ddychwelyd cynwysyddion. Roedd yr astudiaeth hon wedi defnyddio pedwar senario modelu gwahanol i gasglu'r ymatebion amrywiol hynny am y galw. Dangosodd hyn y byddai cynnydd amcanol yn y galw am gynwysyddion PET sengl mawr ac aml-becynnau bach o gynwysyddion PET mawr ar ôl cyflwyno CDE (gyda ffi safonol neu ffi amrywiadwy) o gymharu â'r llinell sylfaen heb CDE wrth i ddefnyddwyr geisio cyfyngu ar gost yr ernes ar bob potel. Fodd bynnag, gwelwyd bod hyn yn wir am ddiodydd ysgafn yn unig ac nid am ddiodydd alcoholaidd, lle mae'r fformatiau hyn yn cael eu defnyddio'n bennaf. Mae'r awduron yn awgrymu bod angen rhoi rhywfaint o ystyriaeth i segmentau alcohol lle ceir amrywiaeth o fformatiau pecynnu, fel seidr er enghraifft, oherwydd byddai rhai defnyddwyr yn gallu newid i brynu cynhwysydd PET mawr sengl yn hytrach na chaniau unigol a gallai hyn arwain yn anfwriadol at gynnydd yn eu defnydd o alcohol.
- 3.10 Yn Croatia, lle mae fformatiau o'r fath yn gyffredin, mae tystiolaeth yn y categori lager²⁵ o droi at fformatiau mwy ers lansio CDE, a bod gwerthiant poteli PET 2 litr wedi cynyddu a disodli gwerthiant poteli PET 1 litr i ryw raddau. Mae hyn wedi digwydd hefyd yn achos caniau 500ml a chaniau 330ml. Er hynny, nid oedd gwerthiant cyffredinol cwrw mewn cynwysyddion PET, gwydr a chaniau wedi cynyddu yn ôl cyfaint yn ystod cyfnod yr adolygiad, a hynny'n dangos nad oedd cynnydd o ran y meintiau a yfwyd. Cafwyd senario tebyg yn Estonia hefyd lle'r oedd yn ymddangos, wrth lansio CDE, fod cyfran gwerthiant caniau 500ml yn cynyddu ar

²⁴ [Assessing the Impact of a Flat and Variable Deposit Fee for UK Deposit Return Scheme. Alupro.](#)

²⁵ [Recycling DRS in Scotland \(britglass.org.uk\)](#)

draul caniau 330ml. Roedd cynhyrchwyr wedi cyflwyno caniau 568ml ar ôl hyn ac roedd cyfran gwerthiant y rhain wedi cynyddu ar draul caniau 500ml. At ei gilydd, yn y pen draw, roedd cyfran gwerthiant caniau 500ml+ wedi cynyddu ers lansio'r CDE er bod gwerthiant caniau 330ml wedi ailgodi yn dilyn lansio'r CDE, a hynny'n dangos bod yr effaith yn Estonia yn llai amlwg nag yn Croatia.

I grynhoi, prin iawn yw'r ymchwil sydd ar gael yn ymwneud â chanlyniadau anfwriadol CDEau yng nghyd-destun yfed alcohol. Mae'r ffaith bod cyn lleied o ymchwil, yng ngolwg nifer y cynlluniau sydd ar waith drwy'r byd, yn awgrymu nad oedd yr effaith ar yfed alcohol yn fater a gododd yn y marchnadoedd hyn. Yn y pen draw, mae astudiaethau'n dangos, os yw CDE wedi'i gynllunio a'i weithredu'n effeithiol, na ddylai gael effaith ar ymddygiad defnyddwyr gan fod yr ernes yn ad-daladwy. Os yw defnyddwyr yn gallu cymryd rhan yn llawn yn y cynllun a'i bod yn hawdd iddynt hawlio'r ernes yn ôl, yna mae'n llai tebygol y bydd canlyniadau anfwriadol yn codi wrth roi CDE ar waith.


4. Trosolwg: Siopa am Ddiodydd Alcoholaidd

Pwrpas y bennod hon yw amlinellu mathau o ymddygiad siopa a welir ar hyn o bryd sy'n berthnasol i alcohol a allai ddylanwadu ar ddefnyddwyr wrth gyflwyno'r CDE.

Ble a sut mae alcohol yn cael ei brynu

- 4.1 Yn yr ymchwil ansoddol, dywedodd cyfranogwyr wrthym eu bod yn tueddu i siopa am ddiodydd alcoholaidd ym mha le bynnag y maent yn siopa am nwyddau groser. Felly, archfarchnadoedd a ddefnyddir amlaf i brynu alcohol, ac roedd 64% o gyfranogwyr yr arolwg yn prynu alcohol yn y mannau hyn o leiaf unwaith y mis (Ffigur 4.1). Manwerthwyr cyfleustra a ddefnyddir ail amlaf ond maent yn fwy tebygol o gael eu defnyddio ar gyfer prynu 'mewn cyfyngder' (e.e., Rydw i wedi anghofio prynu rhywbeth, neu Does gen i ddim ar ôl o rywbeth). Yn y ddau achos, fodd bynnag, dywedodd cyfweleion eu bod fel arfer yn gwybod pa fath o alcohol y byddant yn ei brynu cyn mynd i'r siop, yn hytrach na phenderfynu pan fyddant yno wrth y silff. Felly, mae dewisiadau yn y siop yn cael eu gwneud o fewn mathau o alcohol yn hytrach na rhwng mathau o alcohol. Os yw defnyddwyr yn tueddu i ddewis o fewn mathau yn hytrach na rhyngddynt yn y siop, mae hyn yn awgrymu ei bod yn annhebygol y byddant yn newid rhwng mathau wrth gyflwyno CDE, gan y byddai hyn yn golygu cefnu ar eu hymddygiad presennol.
- 4.2 Roedd y rheini a gyfwelwyd hefyd wedi nodi eu bod fel arfer yn treulio amser wrth y silffoedd yn penderfynu beth i'w brynu; yn gwerthuso beth sy'n cael ei weld yn bryniant sy'n rhoi'r gwerth gorau iddynt ar y pryd. Er bod pris (a chynigion arbennig yn benodol) yn rhan allweddol o'r broses benderfynu hon, mae ffactorau eraill fel y dewis o frand a fformat (potel neu gan, aml-becyn neu becyn sengl, maint y can/potel etc.) hefyd yn chwarae rhan allweddol. Mae'r ffaith bod tuedd eisoes i ystyried pryniannau alcohol yn awgrymu y bydd defnyddwyr, ar ôl cyflwyno CDE, yn cymryd eu hamser cyn dewis wrth werthuso gwerth yr ernes ochr yn ochr â ffactorau eraill.

Ffigur 4.1 Amllder siopa am alcohol yn ôl y math o fanwerthwr



Sylfaen: Sampl graidd, Yr holl yfwyr (1011), C19 Pa mor aml rydych chi wedi prynu alcohol fel arfer oddi wrth y mathau canlynol o fanwerthwr yn y 12 mis diwethaf?

4.3 Fel y gwelir yn Nhabl 4.1, yfwyr a niweidir ac yfwyr mewn perygl sydd hefyd yn defnyddio archfarchnadoedd amlaf i brynu diodydd alcoholaidd (93% a 88%, yn y drefn honno, gan wneud hynny o leiaf unwaith y mis). Ond maent hefyd yn defnyddio mathau eraill o fanwerthwr yn amlach nag yfwyr cymedrol. Er enghraifft, mae 65% o yfwyr a niweidir yn adrodd eu bod yn siopa am alcohol mewn siopau cyfleustra o leiaf unwaith y mis o gymharu â dim ond 19% o yfwyr cymedrol. Yr hyn sy'n berthnasol i'r CDE yw bod cyfran sylweddol o yfwyr a niweidir yn prynu alcohol oddi wrth fanwerthwyr ar-lein neu glybiau, a allai fod wedi'u lleoli y tu allan i Gymru, gan osgoi talu'r Isafbris Uned. Gallai hyn greu goblygiadau hefyd os bydd Cymru yn cynnwys cynwysyddion gwydr, ond gweddill y DU yn peidio â gwneud hynny.

Tabl 4.1 Prynu Diodydd Alcoholaidd yn ôl y Math o Fanwerthwr o Leiaf Unwaith y Mis

	Yr holl yfwyr	Yfwyr a niweidir	Lefel Yfed		Incwm isel	Incwm isel ac Yfwyr mewn perygl neu Yfwyr a niweidir
			Yfwyr mewn perygl	Yfwyr cymedrol		
Archfarchnadoedd	65%	93%	88%	49%	61%	88%
Siopau cyfleustra	32%	65%	49%	19%	36%	64%
Cyfanwerthwyr	9%	23%	15%	4%	10%	17%
Manwerthwyr ar-lein	9%	29%	13%	4%	11%	19%
Siopau diodydd trwyddedig	15%	38%	25%	7%	18%	31%
Clybiau gwin, cwrw neu seidr	11%	26%	18%	4%	10%	19%

Sylfaen: Sampl graidd, Yr holl yfwyr (1011), Yfwyr a niweidir yn cynnwys ychwanegiad (200), Yfwyr mewn perygl yn cynnwys ychwanegiad (313), Yfwyr cymedrol (623), Yfwyr ar incwm isel yn cynnwys ychwanegiad (559) ac Yfwyr incwm isel ac yfwyr mewn perygl neu yfwyr a niweidir yn cynnwys ychwanegiad (208) C19 Pa mor aml rydych chi wedi prynu alcohol fel arfer oddi wrth y mathau canlynol o fanwerthwr yn y 12 mis diwethaf?


4.4 Dywedodd cyfranogwyr yr ymchwil ansoddol wrthym eu bod yn gwneud y rhan fwyaf o bryniannau alcohol wrth siopa am nwyddau groser, ond bod alcohol fel y cyfryw heb ei gynnwys fel arfer mewn unrhyw gyllideb am nwyddau groser a oedd ganddynt. Lle'r oedd newidiadau wedi'u gwneud o ran prynu alcohol o ganlyniad i chwyddiant, nid oedd hyn yn cynnwys newid y mathau o alcohol. Yn hytrach, dilynwyd strategaethau i arbed costau a oedd yn cynnwys prynu llai (yfwyr cymedrol), gwario ar frandiau rhatach, gwneud mwy o ddefnydd o gynigion arbennig wrth siopa, prynu alcohol oddi wrth siopau disgownt neu gyfanwerthwyr, yfed yn llai aml mewn tafarndai a bariau bwytai a phrynu diodydd cymysgu rhatach. Mae hyn yn awgrymu, os nad yw prynwyr alcohol yn newid y mathau o alcohol y maent yn eu prynu o ganlyniad i chwyddiant, ond yn hytrach yn dod o hyd i ffyrdd i arbed arian o fewn y mathau o alcohol y maent yn eu prynu fel arfer, y gallent fod yn annhebygol o wneud hynny wrth gyflwyno CDE.

Ble mae diodydd alcoholaidd a brynir oddi wrth fanwerthwyr yn cael eu hyfed

4.5 Mae'r rhan fwyaf o yfwyr yn prynu diodydd alcoholaidd oddi wrth fanwerthwyr i'w hyfed gartref. Fodd bynnag, mae rhai is-grwpiau yn fwy tebygol hefyd o yfed diodydd a brynwyd oddi wrth fanwerthwyr y tu allan i'r cartref: yfwyr mewn perygl ac yfwyr a niweidir ac oedolion iau (gweler Ffigur 4.2). Er mwyn helpu i hwyluso dychwelyd cynwysyddion ymysg yr is-grwpiau hyn, mae'r ymchwil yn awgrymu y

bydd yn bwysig lleoli manau dychwelyd ernesau lle mae diodydd alcoholaidd a brynwyd oddi wrth fanwerthwyr yn fwyaf tebygol o gael eu hyfed y tu allan i'r cartref (parciau, traethau, canolfannau trafndiaeth). Os bydd yfwyr yn teimlo ei bod yn anodd dychwelyd cynwysyddion, ceir risg fwy o brynu mathau o alcohol cryfder uchel mewn fformat sengl (gwin, gwirodydd, gwirodlynnau neu win cadarn) yn hytrach na mathau o alcohol cryfder is mewn aml-becynnau, fel seidr neu gwrw, lle byddai'r ernes a gollir yn llai os oeddent yn gwaredu cynwysyddion mewn biniau sbwriel cyffredinol. Fel y gwelir yn Nhabl 4.2, o blith y mathau a yfir, mae seidr a chwrrw yn fwy tebygol o lawer o gael eu hyfed y tu allan i'r cartref o gymharu â gwirodydd, gwirodlynnau neu winoedd cadarn ymysg yfwyr a niweidir.

Ffigur 4.2 Ble mae diodydd alcoholaidd a brynir oddi wrth fanwerthwyr yn cael eu hyfed



Sylfaen: Sampl graidd, Yr holl yfwyr (1011), 18-34 (276), 35-54 (315), 55+ (420), Yfwyr a niweidir yn cynnwys ychwanegiad (200), Yfwyr mewn perygl yn cynnwys ychwanegiad (313), Yfwyr ar incwm isel yn cynnwys ychwanegiad (559) ac Yfwyr incwm isel ac yfwyr mewn perygl neu yfwyr a niweidir yn cynnwys ychwanegiad (208) C23 Ac yn y 12 mis diwethaf, ble rydych wedi yfed y diodydd alcoholaidd hyn rydych wedi'u prynu oddi wrth fanwerthwyr?

Tabl 4.2 Y ganran o'r rheini sy'n yfed pob math o ddiod alcoholaidd sy'n ei hyfed y tu allan i'r cartref

	Yr holl yfwyr	Yfwyr a niweidir	Yfwyr mewn perygl	Yfwyr cymedrol
Cwrw	23%	33%	27%	18%
Seidr	27%	49%	26%	20%
Gwin	20%	31%	24%	15%
Gwirodydd, Gwirodlynnau neu Win cadarn	18%	22%	22%	15%

Sylfaen: Y rheini sy'n yfed cwrw (567), seidr (388), gwin (511), gwirodydd, gwirodlynnau neu win cadarn (660) (coctêls parod i'w hyfed heb eu cynnwys am fod y sylfaen yn isel) C23 Ac yn y 12 mis diwethaf, ble rydych chi yfed y diodydd alcoholaidd hyn rydych wedi'u prynu oddi wrth fanwerthwyr?

5. Yfed Diodydd Alcoholaidd

Pwrpas yr adran hon yw nodi ymddygiadau ac agweddau meddwl sy'n berthnasol i'r mathau o alcohol a yfir, a'r goblygiadau mewn perthynas ag ymddygiadau prynu tebygol wrth gyflwyno CDE.

- 5.1 Wrth siarad â chyfranogwyr yr ymchwil ansoddol, roedd yn glir bod cysylltiad agos rhwng y mathau o ddiodydd alcoholaidd a yfent ac achlysuron neu sefyllfaoedd penodol.


'Gwin os byddaf i'n ymweld â ffrindiau neu fy chwaer, seidr neu gwrw os oes gêm ymlaen neu os byddaf i'n mynd i weld fy mrawd, jin yw'r ddiod i mi, byddaf i'n ei yfed i ymlacio ar y penwythnos.' Benyw, 35-54, Yfwr mewn perygl

'Byddaf i'n yfed lager os ydw i ar fy mhen fy hun neu os yw fy ffrindiau wedi dod draw, ond byddaf i'n yfed gwin pan fyddaf i gyda'm cariad.' Gwryw, 18-34, Yfwr mewn perygl

Mae hyn yn awgrymu y byddai ymddygiad cyson o'r fath yn rhwystr i newid i fath gwahanol o alcohol wrth gyflwyno'r CDE.

- 5.2 Yn yr arolwg, roedd y rhan fwyaf hefyd yn dewis o blith nifer cymharol fach o fathau o alcohol y byddent yn eu hyfed yn rheolaidd. Ar gyfartaledd (canolrif), roedd yfwyr yn yfed dim ond 3 math o alcohol ym mhob blwyddyn, a 2 fath ym mhob mis. Hyd yn oed ymysg yfwyr a niweidir ac yfwyr mewn perygl, ar gyfartaledd dim ond 2 fath y byddent yn eu hyfed ym mhob mis, a 3 math yn ystod y flwyddyn.

Ffigur 5.1 Nifer canolrifol y mathau o alcohol a yfwyr



Sylfaen: Sampl graidd, Yr holl yfwyr (1011), Yfwyr cymedrol (623), Yfwyr mewn perygl ac Yfwyr a niweidir (513) Mathau: 1. Cwrw, 2. Seidr 3. Gwin 4. Gwirodydd, Gwin Cadarn neu Wirodynau 4. Diodydd parod i'w hyfed C8 Gan feddwl am y 12 mis diwethaf, pa rai o'r mathau canlynol o ddioid alcoholaidd rydych wedi'u hyfed? C9, C11, C13, C15, CQ17 Yn ystod y 12 mis diwethaf, pa mor aml rydych wedi cael diod o'r canlynol....?

5.3 Roedd yn ymddangos mai'r rheswm am hyn oedd bod hoff fath o ddioid alcoholaidd gan y rhan fwyaf a'u bod yn ei hyfed yn amlach na diodydd eraill (82%, Tabl 5.1), fel y byddai newid i fath arall wrth gyflwyno'r CDE yn galw eto am newid ychwanegol yn eu harferion. Yn ogystal â hyn, roedd yr ymchwiler feintiol yn awgrymu bod yfwyr a niweidir ac yfwyr mewn perygl ychydig yn fwy tebygol o fod â hoff ddioid nag yfwyr cymedrol (87% a 85% o gymharu â 79% yn y drefn honno). Yn achos yfwyr mewn perygl ac yfwyr a niweidir sy'n yfed cwrw o leiaf 3 i 4 gwaith yr wythnos, roedd y ffafriaeth hon yn codi i 90%, a hynny'n awgrymu y gallent fod yn llai tebygol o newid i fath arall o alcohol cryfach mewn fformat sengl wrth gyflwyno'r CDE.

Tabl 5.1 Canran y rheini sydd â hoff fath o ddioid alcoholaidd

	Yr holl yfwyr	18-34	35-54	55+	Yfwyr a niweidir	Yfwyr mewn perygl	Yfwyr cymedrol	Yfwyr ar incwm isel ac Yfwyr mewn perygl neu Yfwyr a niweidir
Cytuno'n gryf	40%	43%	42%	36%	46%	48%	35%	51%
Tueddu i gytuno	42%	36%	44%	44%	42%	37%	44%	34%
CYFANSWM Cytuno	82%	79%	86%	80%	87%	85%	79%	85%

Sylfaen: Sampl graidd, Yr holl yfwyr (1011), 18-34 (276), 35-54 (315), 55+ (420) Yfwyr a niweidir yn cynnwys ychwanegiad (200), Yfwyr mewn perygl yn cynnwys ychwanegiad (313), Yfwyr cymedrol (623), Yfwyr ar incwm isel ac yfwyr mewn perygl yn cynnwys ychwanegiad neu yfwyr a niweidir yn cynnwys ychwanegiad (208) C24 I ba raddau rydych yn cytuno neu'n anghytuno â'r datganiadau hyn?

5.4 Wrth siarad â chyfranogwyr yr ymchwil ansoddol, roedd hefyd yn amlwg bod cysylltiad emosiynol cryf â'u hoff fathau o alcohol. Yn achos yfwyr cymedrol a rhai yfwyr mewn perygl, roedd yr hoff fath o alcohol yn cael ei gysylltu'n aml â phleser neu amser iddyn nhw eu hunain.

'Mae pobl yn gwybod beth maen nhw'n ei hoffi a beth nad ydyn nhw'n ei hoffi. Byddaf i'n dal i brynu Guinness, mae'n gynnyrch sy'n rhoi mwynhad.'

Yn ogystal â hyn, byddent yn aml yn cyfeirio at eu hoff fath o alcohol drwy ddefnyddio'r gair 'fy...' gan ddangos ymagwedd feddiannol at eu hoff fathau. Roedd hyn yn wir hefyd am y rheini sy'n yfed ar lefel niweidiol.

'Lager yw'r peth i mi; rydw i'n hoffi ei gael yn oer.' Gwryw, 35-54, Yfwr a niweidir

'JD [Jack Daniels] a coke yw fy niod i.' Gwryw, 35-54, Yfwr a niweidir

5.5 Mae yfwyr a niweidir ac yfwyr mewn perygl yn yfed y mathau y maent yn eu defnyddio yn fwy aml nag yfwyr cymedrol. Felly, gellid dadlau y byddant yn fwy agored i effaith taliadau ernes. Maent hefyd yn yfed mathau o alcohol a geir mewn aml-becynnau (cwrw, seidr) yn fwy aml nag yfwyr cymedrol. Mae oedolion iau hefyd yn prynu seidr yn amlach na grwpiau oedran eraill (gweler Tabl 5.2).

Tabl 5.2 Mathau o alcohol a yfir o leiaf unwaith y mis

	Yr holl yfwyr	18-34 oed	35-54 oed	55+ oed	Yfwyr a niweidir	Yfwyr mewn perygl	Yfwyr cymedrol
Cwrw safonol	51%	49%	51%	52%	71%	65%	41%
Cwrw cryf	25%	36%	27%	17%	48%	37%	15%
Seidr safonol	25%	33%	25%	20%	48%	37%	16%
Seidr ffrwythau	23%	40%	24%	11%	42%	35%	14%
Seidr premiwm/rhywiog	22%	30%	24%	15%	40%	31%	13%
Seidr cryf	9%	17%	11%	3%	28%	15%	2%
Gwin	44%	37%	37%	54%	64%	57%	33%
Gwirodydd	43%	44%	43%	42%	61%	54%	35%
Gwin cadarn	5%	4%	4%	5%	9%	6%	3%
Gwirodynnau	9%	11%	7%	8%	14%	12%	7%
Diodydd parod i'w hyfed	8%	12%	11%	4%	20%	12%	5%


Sylfaen: Sampl graidd, Yr holl yfwyr (1011), 18-34 (276), 35-54 (315), 55+ (420), Yfwyr a niweidir yn cynnwys ychwanegiad (200), Yfwyr mewn perygl yn cynnwys ychwanegiad (313), Yfwyr cymedrol (623) C9, C11, C13, C15, C17 Yn ystod y 12 mis diwethaf, pa mor aml rydych wedi cael diod o'r canlynol?

6. Agweddau Meddwl ac Ymddygiadau o ran Ailgylchu

Pwrpas y bennod hon yw disgrifio ymddygiadau ac agweddau meddwl presennol o ran ailgylchu, a'r dylanwad posibl o hynny ar ymddygiadau prynu alcohol wrth gyflwyno'r CDE.

- 6.1 Roedd ailgylchu cynwysyddion diodydd alcoholaidd yn arfer sefydledig i'r rhan fwyaf o'r cyfranogwyr yn yr ymchwil ansoddol a'r ymchwil feintiol. Nododd oddeutu naw ym mhob deg (87%) o'r rheini a gymerodd ran yn yr arolwg eu bod yn ailgylchu eu holl gynwysyddion drwy ailgylchu wrth ochr y ffordd ac mae 9% ychwanegol yn gwaredu cynwysyddion yn rhannol drwy ailgylchu ac yn rhannol mewn gwastraff cyffredinol (gweler Ffigur 6.1).

Ffigur 6.1 Tuedd i ailgylchu cynwysyddion diodydd alcoholaidd yn y cartref a'r tu allan i'r cartref



Sylfaen: Sampl graidd, Yr holl yfwyr (1011), 18-34 (276), 35-54 (315), 55+ (420), Yfwyr a niweidir yn cynnwys ychwanegiad (200), Yfwyr mewn perygl yn cynnwys ychwanegiad (313), Yfwyr incwm isel yn cynnwys ychwanegiad (559) C76 Sut rydych yn gwaredu cynwysyddion diodydd alcoholaidd ar hyn o bryd?

- 6.2 Yn yr ymchwil ansoddol, y rheini a oedd yn ei chael yn hawsaf at ei gilydd i ailgylchu cynwysyddion oedd y rheini a oedd yn byw mewn llety lle gallent storio cynwysyddion y tu allan mewn sachau neu flychau ailgylchu (h.y., yn byw mewn tai yn hytrach na fflatiau). Fodd bynnag, roedd 23% o yfwyr a niweidir a 25% o yfwyr ar

incwm isel ac yfwyr a niweidir ac yfwyr mewn perygl yn y sampl hon yn byw mewn fflatiau – canran fwy o lawer nag ar gyfer yfwyr cymedrol, sef 15% (gweler Tabl 6.1)

Tabl 6.1 Y math o lety lle maent yn byw

	Yr holl yfwyr	18-34	35-54	55+	Yfwyr a niweidir	Yfwyr mewn perygl	Yfwyr cymedrol	Yfwyr ar incwm isel ac Yfwyr mewn perygl ac Yfwyr a niweidir
Tŷ sengl	23%	16%	20%	31%	21%	24%	23%	12%
Tŷ pâr	36%	40%	41%	29%	34%	33%	36%	32%
Tŷ canol rhes	21%	16%	23%	23%	19%	22%	22%	26%
Fflat	17%	23%	15%	13%	23%	18%	15%	25%
Ystafell mewn tŷ a rennir	1%	5%	0%	0%	3%	2%	1%	3%
Fflat un ystafell	0%	0%	0%	0%	0%	0%	0%	0%
Arall	2%	0%	1%	4%	1%	1%	3%	2%

Sylfaen: Yr holl yfwyr, sampl graidd (1011), 18-34 (276), 35-54 (315), 55+ (420), Yfwyr a niweidir yn cynnwys ychwanegiad (200), Yfwyr mewn perygl yn cynnwys ychwanegiad (313), Yfwyr ar incwm isel yn cynnwys ychwanegiad (559) C77 Pa fath o lety rydych yn byw ynddo?

6.3 Felly, mae'r duedd i ailgylchu cynwysyddion diodydd alcoholaidd ar ei huchaf yn y lleoliad lle yfir y rhan fwyaf o'r diodydd alcoholaidd a brynir oddi wrth fanwerthwyr (amgylchedd y cartref). Wrth siarad a chyfranogwyr yr ymchwil ansoddol, cafwyd ar ddeall bod y cymhellion i ailgylchu yn y cartref yn deillio'n fwy o ddisgwyliadau cymdeithasol yn hytrach na phryder mawr am yr amgylchedd. Fel y nododd un o gyfranogwyr yr ymchwil ansoddol:

'Byddaf i'n eu gweld nhw ar lonydd cefn gwlad, byddaf i'n teithio'n aml ac rydw i'n credu mai Cymru yw un o'r lleoedd gwaethaf, ond dydw i ddim yn colli cwsg ar gyfrif hyn' Benyw, 18-24, Yfwr cymedrol

6.4 Fodd bynnag, cafwyd bod tuedd is o lawer i ailgylchu cynwysyddion pan yfir diodydd alcoholaidd y tu allan i'r cartref, gan mai 42% o'r rheini a gymerodd ran yn yr arolwg a ddywedodd eu bod bob amser yn dod â chynwysyddion adref i'w hailgylchu (Ffigur 6.1). Ar ben hynny, dywedodd un ym mhob pedwar (24%) eu bod weithiau'n dod â nhw adref i'w hailgylchu ac weithiau'n eu rhoi mewn biniau gwastraff cyffredinol. Dywedodd cyfranogwyr yr ymchwil ansoddol wrthym mai anaml y byddent yn gweld biniau ailgylchu y tu allan i'r cartref a lle'r oedd y rhain yn

bodoli, roedd pryder ynghylch halogi. Y tu allan i'r cartref, roedd cyfleustra wrth waredu cynwysyddion diodydd yn aml yn drech nag unrhyw bryderon am yr angen i ailgylchu. Yn yr achos hwn, roedd y disgwyliad cymdeithasol wedi'i grybwyll drwy ddweud ei bod yn iawn rhoi cynwysyddion mewn bin gwastraff cyffredinol cyn belled ag nad yw sbwriel yn cael ei adael.

'Os byddwn ni wedi mynd am bicnic, byddwn ni'n eu rhoi mewn bin sydd mor agos â phosibl...bin lleol, nid bin ailgylchu.'

- 6.5 Mae'r ymchwil ansoddol a'r ymchwil feintiol yn awgrymu mai oedolion iau (18-34 oed) sydd leiaf tebygol o ailgylchu yn y cartref a'r tu allan i'r cartref. Yn yr ymchwil ansoddol, y rhesymau a grybwyllwyd amlaf am hyn oedd rhai'n ymwneud â llety (lle'r oedd trefniadau byw yn ei gwneud yn fwy anodd ailgylchu) neu er hwylustod. Er mai dim ond 5% o ymatebwyr yr arolwg dan 35 oed oedd yn byw mewn llety a rennir, roedd 23% yn byw mewn fflatiau lle'r oedd yn bosibl bod cyfleusterau biniau a rennir. Mae'r ganran hon yn uwch o lawer nag ar gyfer grwpiau oedran eraill (Tabl 6.1).

7. Ymwybyddiaeth o'r Cynllun Dychwelyd Ernes ac Agweddau Meddwl tuag ato

Pwrpas y bennod hon yw amlinellu'r ymwybyddiaeth o'r Cynllun Dychwelyd Ernes a'r agweddau meddwl tuag ato yng nghyd-destun diodydd alcoholaidd, a'r goblygiadau dichonol o ran ymddygiadau prynu.

- 7.1 Ymysg ymatebwyr yr arolwg, roedd 37% yn ymwybodol bod y Cynllun Dychwelyd Ernes yn cael ei ddatblygu. Fodd bynnag, roedd rhai gwahaniaethau amlwg rhwng is-grwpiau, fel y mae Tabl 7.1 yn dangos. Rhai dan 35 oedd yn lleiaf tebygol o fod yn ymwybodol o'r cynllun (27%), o gymharu â 46% ar gyfer y rheini dros 55 oed. Roedd yfwr a niweidir hefyd yn ychydig yn fwy tebygol o fod yn ymwybodol o'r CDE (42%) o gymharu â 36% o yfwr cymedrol. Mae hyn yn gyson â data a gasglwyd yn ystod y gwerthusiad parhaus o ddeddfwriaeth yr Isafbris Uned gan Lywodraeth Cymru²⁶ sy'n edrych ar yr ymwybyddiaeth o'r Isafbris Uned, lle mai oedolion iau oedd â'r lefel ymwybyddiaeth isaf a lle'r oedd yfwr sy'n wynebu risg uwch yn fwy tebygol o fod yn ymwybodol o'r polisi. Yr hyn sy'n berthnasol i'r astudiaeth bresennol, fodd bynnag, yw bod y cyfranogwyr yn yr ymchwil ansoddol y siaradwyd â nhw wedi dweud nad oeddent wedi newid rhwng mathau o alcohol o ganlyniad i gyflwyno'r Isafbris Uned. Gall hyn awgrymu, os nad oeddent wedi newid rhwng mathau o alcohol pan oedd pris rhai diodydd wedi cynyddu wrth gyflwyno'r Isafbris Uned, yna y byddai gosod ernes ad-daladwy ar gynwysyddion diodydd hefyd yn annhebygol o arwain at newid i fathau diod gwahanol.

'Mae heb gael effaith fawr arnaf i; rydw i'n dal i brynu seidr.' Benyw, 25-34, Yfwr a niweidir'

²⁶ [Agweddau'r cyhoedd at isafbris am alcohol yng Nghymru ac ymwybyddiaeth ohono 2018 – 2022, Rhif Ymchwil Gymdeithasol 59/2023](#)

Tabl 7.1 Yn ymwybodol o'r Cynllun Dychwelyd Ernes

	Yr holl yfwyr	Gwrywod	Benywod	18-34	35-54	55+	Yfwyr a niweidir	Yfwyr mewn perygl	Yfwyr cymedrol	Yfwyr incwm isel ac Yfwyr mewn perygl neu Yfwyr a niweidir
Ydw	37%	43%	31%	27%	33%	46%	42%	32%	36%	33%
Nac ydw	60%	53%	67%	70%	65%	50%	56%	65%	60%	62%
Ddim yn gwybod	3%	4%	2%	3%	2%	4%	3%	4%	3%	5%

Sylfaen: Sampl graidd, Yr holl yfwyr (1011), Gwrywod (509), Benywod (497), 18-34 (276), 35-54 (315), 55+ (420), Yfwyr a niweidir yn cynnwys ychwanegiad (200), Yfwyr mewn perygl yn cynnwys ychwanegiad (313), Yfwyr cymedrol (623), Yfwyr ar incwm isel ac Yfwyr mewn perygl neu Yfwyr a niweidir yn cynnwys ychwanegiad (208) C25 Mae Llywodraeth Cymru, ynghyd â'r Llywodraethau eraill yn y DU, yn gweithio ar ddull newydd o ailgylchu cynwysyddion diodydd o'r enw cynllun dychwelyd ernes neu DRS. Ei nod yw gwella cyfraddau ailgylchu a lleihau sbwriel. Cyn heddiw, a oeddech wedi clywed am y cynllun hwn?

7.2 Roedd mwy na hanner y rheini a gymerodd ran yn yr arolwg yn teimlo'n weddol gadarnhaol o leiaf tuag at y CDE (59%), ond roedd chwarter ohonynt (25%) yn teimlo'n negyddol tuag ato (roedd 17% yn niwtral). Mewn ymatebion testun rhydd, o blith y 59% a deimlai'n weddol gadarnhaol o leiaf, y prif resymau a roddwyd oedd y byddai'n hybu ailgylchu (47%), y teimlwyd ei fod yn syniad da ar y cyfan (23%), y byddai'n helpu'r amgylchedd yn gyffredinol (14%) ac atal sbwriela (14%). O blith y rheini a deimlai'n niwtral neu'n negyddol tuag at y CDE, y prif resymau a roddwyd oedd eu bod eisoes yn ailgylchu cynwysyddion (22%), y byddai'n achosi trafferth (17%), y gost ychwanegol yn y man prynu (13%), a'i bod yn well ganddynt gael arian parod na thalebau (8%).

Ffigur 7.1 Rhesymau dros deimlo'n gadarnhaol tuag at y CDE arfaethedig (wedi'u codio ar sail ymatebion gair am air)



Sylfaen: Sampl graidd, y rheini a ddewisodd 'Rydw i'n hoffi'r syniad hwn' neu 'Yn teimlo'n weddol gadarnhaol amdano' mewn ymateb i'r cwestiwn (C27) 'Beth yw'ch ymateb cyntaf i'r cynllun?' (589) C28 Allech chi ddisgrifio pam rydych yn teimlo fel hyn am y Cynllun Dychwelyd Ernes.....?

Ffigur 7.2 Rhesymau dros deimlo'n niwtral neu'n negyddol tuag at y CDE arfaethedig




Sylfaen: Sampl graidd, y rheini a ddewisodd 'Dydw i ddim yn ei hoffi o gwbl', 'Yn weddol negyddol' neu 'Yn niwtral' mewn ymateb i'r cwestiwn (C27) 'Beth yw'ch ymateb cyntaf i'r cynllun?' (422) C28 Allech chi ddisgrifio pam rydych yn teimlo fel hyn am y Cynllun Dychwelyd Ernes.....?

7.3 Yn yr arolwg, pan ofynnwyd iddynt yn uniongyrchol, roedd bron hanner yr ymatebwyr (49%) yn teimlo'n ddig bod y cynllun yn cael ei gyflwyno a hwythau eisoes yn ailgylchu, a dywedodd canran debyg (45%) ei bod yn annheg y byddent yn gorfod defnyddio'r cynllun hwn i gael yr ernes yn ôl. Mynegwyd y teimladau hyn i'r un graddau rhwng y gwahanol fathau o yfwyr, lefelau incwm a grwpiau demograffig yn yr ymchwil feintiol a'r ymchwil ansoddol (gweler Ffigurau 7.3 a 7.4). Mae hyn yn awgrymu y bydd yn rhaid nodi'n glir yn y cyfathrebu am y lansio beth fydd y manteision personol o'r cynllun i ddefnyddwyr.

'Pe bydden nhw'n ei gyflwyno, byddwn i'n gorfod cydymffurfio ond, ar hyn o bryd, mae'r cyngor yn gwneud hyn, maen nhw'n ei gwneud yn hawdd i chi. Mae hyn yn cosbi'r rheini sy'n ailgylchu ar hyn o bryd.' Gwryw, 65+, Yfwr cymedrol


'Felly, os byddaf i'n prynu 2 botel, ond yn eu rhoi nhw yn y bin ailgylchu, rydw i'n dal i wneud y peth iawn, ond rydw i'n cael fy nghosbi drwy gollu 40c? Does dim synnwyr yn hynny.' Gwryw, 45-54, Yfwr a niweidir

Ffigur 7.3 Cytuno â'r datganiad 'Rydw i'n teimlo'n ddig bod y cynllun hwn yn cael ei gyflwyno a minnau'n ailgylchu'n barod'



Sylfaen: Sampl graidd, Yr holl yfwyr (1011), Gwrywod (509), Benywod (497), 18-24 (276), 35-54 (315), 55+ (420), Yfwyr a niweidir yn cynnwys ychwanegiad (200), Yfwyr mewn perygl yn cynnwys ychwanegiad (313), Yfwyr cymedrol (623), Yfwyr incwm isel ac Yfwyr mewn perygl neu Yfwyr a niweidir yn cynnwys ychwanegiad (208) C72 Ac i ba raddau rydych yn cytuno neu'n anghytuno â'r datganiadau hyn am y Cynllun Dychwelyd Ernes?


Ffigur 7.4 Cytuno â'r datganiad 'Mae'n annheg y byddwn i'n gorfod defnyddio'r cynllun hwn i gael fy ernes yn ôl'



Sylfaen: Sampl graidd, Yr holl yfwyr (1011), Gwrywod (509), Benywod (497), 18-24 (276), 35-54 (315), 55+ (420), Yfwyr a niweidir yn cynnwys ychwanegiad (200), Yfwyr mewn perygl yn cynnwys ychwanegiad (313), Yfwyr cymedrol (623), Yfwyr incwm isel ac Yfwyr mewn perygl neu Yfwyr a niweidir yn cynnwys ychwanegiad (208) C72 Ac i ba raddau rydych yn cytuno neu'n anghytuno â'r datganiadau hyn am y Cynllun Dychwelyd Ernes?

7.4 Yn yr arolwg ar-lein ac yn y cyfweiliadau manwl, dangoswyd esboniad i'r cyfranogwyr o'r ffordd y byddai'r CDE yn gweithio. Yn yr arolwg, ychydig llai na hanner yr ymatebwyr (47%) a oedd â chwestiynau o hyd am y cynllun neu'n meddwl ei fod yn ddyrys. Ymatebwyr 18-34 blwydd oed oedd yn fwyaf tebygol o fod â chwestiynau neu o feddwl ei fod yn ddyrys (57%) o gymharu â 38% o'r rheini sy'n 55 mlwydd oed neu'n hŷn, fel y mae Ffigur 7.5 yn dangos. O'r rheini a oedd wedi ymateb yn negyddol i'r cynllun ar y dechrau, roedd 60% a oedd â chwestiynau ynghylch sut byddai'n gweithio neu'n meddwl ei fod yn ddyrys o gymharu â 36% o'r rheini a oedd â barn gadarnhaol amdano. Felly mae'r ymchwil yn awgrymu y gall cyfathrebu clir ac ateb cwestiynau cyffredin ymlaen llaw fod yn ystyriaethau pwysig o ran cymell pobl i gymryd rhan yn y CDE.


Ffigur 7.5 Deall y CDE



Sylfaen: Sampl graidd, Yr holl yfwyr (1011), Gwrywod (509), Benywod (497), 18-24 (276), 35-54 (315), 55+ (420), Yfwyr a niweidir yn cynnwys ychwanegiad (200), Yfwyr mewn perygl yn cynnwys ychwanegiad (313), Yfwyr cymedrol (623), Yfwyr incwm isel ac Yfwyr mewn perygl neu Yfwyr a niweidir yn cynnwys ychwanegiad (208) C29 A pha un o'r canlynol sy'n disgrifio orau eich dealltwriaeth chi o'r ffordd y byddai'r cynllun dychwelyd ernes yn gweithio?

Ffigur 7.6 Y berthynas rhwng deall y CDE arfaethedig a'r canfyddiadau ohono

CDE: Mae gen i rai cwestiynau neu nifer o gwestiynau neu rydw i'n teimlo ei fod yn ddyrys



Sylfaen: Sampl graidd, Yr holl yfwyr (1011), Yfwyr mewn perygl neu Yfwyr a niweidir yn cynnwys ychwanegiad (513) C29 A pha un o'r canlynol sy'n disgrifio orau eich dealltwriaeth chi o'r ffordd y byddai'r cynllun dychwelyd ernes yn gweithio? (C27) Beth yw'ch ymateb cyntaf i'r cynllun?

7.5 Roedd ymatebwyr yn yr ymchwil feintiol wedi cael cyfle i godi cwestiynau am y CDE drwy destun rhydd ac mae crynodeb o feysydd y cwestiynau yn Ffigur 7.7. Y

cwestiwn a godwyd amlaf o lawer yn yr ymchwil feintiol oedd un yn ymwneud â lleoliad y mannau dychwelyd (26% o'r rheini a ymatebodd). Roedd hyn yn destun pryder allweddol a godwyd yn yr ymchwil ansoddol hefyd, yn enwedig i gyfranogwyr a oedd yn byw mewn ardaloedd gwledig. Roedd hyn wedi'i ysgogi'n rhannol gan yr angen am gyfleustra, ond hefyd gan y pryder y byddai'r cynllun yn costio arian iddynt yn y pen draw oherwydd y costau trafndiaeth/petrol am yrru i'r mannau dychwelyd.

'Erbyn i mi yrru am 5 munud, ydy'n werth hynny am 20c?'

'Bydd yn costio mwy i mi nawr am fy mod i'n gorfod eu dychwelyd.'

'Os nad oeddwn i'n digwydd mynd y ffordd honno, fyddwn i ddim yn ei wneud.'

Y maes cwestiynau a godwyd ail amlaf oedd hwnnw'n ymwneud â thalebau, er enghraifft, pam rhoi talebau'n ôl ac nid arian parod, ble y gellid cyfnewid talebau, a'u dyddiad dod i ben. Heblaw cwestiynau am leoliad mannau dychwelyd a thalebau, roedd y meysydd cwestiynau eraill wedi'u nodi gan leiafrif o ymatebwyr yn unig.

Ffigur 7.7 Cwestiynau am y ffordd y bydd y CDE yn gweithio mewn perthynas â chynwysyddion diodydd alcoholaidd




Sylfaen: Y rheini a oedd â chwestiynau am y ffordd y byddai'r cynllun yn gweithio (427) C30 Beth yw'r prif gwestiynau sydd gennych chi am y ffordd y byddai'n gweithio? (Codio ar sail ymatebion gair am air)

Bwriad i ddefnyddio'r CDE

7.6 Dywedodd dau ym mhob pump (42%) o'r rheini a ymatebodd i'r arolwg y byddent yn defnyddio'r CDE i waredu cynwysyddion diodydd alcoholaidd lle'r oedd diodydd wedi'u hyfed yn y cartref, ac roedd cyfran debyg (40%) a fyddai'n gwneud hynny ar ôl eu hyfed y tu allan i'r cartref. Dywedodd oddeutu un ym mhob pump (19%) y byddent yn ei ddefnyddio gan amlaf, yn y cartref a'r tu allan i'r cartref (fel y mae Ffigur 7.8 yn dangos). Roedd y rheini sy'n 18-34 blwydd oed yn llai tebygol na grwpiau oedran eraill o ddweud y byddent yn defnyddio'r CDE i waredu cynwysyddion bob tro neu gan amlaf wrth yfed y tu allan i'r cartref (49% o gymharu â 64% o rai 35–54 blwydd oed a 64% o rai 55 mlwydd oed a hŷn, fel y mae Tabl 7.3 yn dangos). Mae hyn yn berthnasol am fod rhai 18–34 blwydd oed yn fwy tebygol o yfed diodydd alcoholaidd y tu allan i'r cartref (53%) na grwpiau oedran hŷn (Ffigur 4.2).

Ffigur 7.8 Bwriad i ddefnyddio'r CDE i waredu cynwysyddion diodydd alcoholaidd



Sylfaen: Yr holl yfwyr, Yn y cartref (1011) a'r Tu allan i'r cartref (904) (ailsylfaenu i gynnwys y rheini sy'n yfed diodydd alcoholaidd y tu allan i'r cartref yn unig) C31 I ba raddau rydych yn credu y byddech yn defnyddio Cynllun Dychwelyd Ernes i waredu cynwysyddion diodydd alcoholaidd?

Tabl 7.2 Bwriad i ddefnyddio'r CDE i waredu cynwysyddion diodydd alcoholaidd lle yfir diodydd yn y cartref

	Yr holl yfwyr	Gwrywod	Benywod	18-34	35-54	55+	Yfwyr a niweidir	Yfwyr mewn perygl	Yfwyr cymedrol	Yfwyr incwm isel ac Yfwyr mewn perygl neu Yfwyr a niweidir
Byddwn yn defnyddio'r Cynllun Dychwelyd Ernes bob tro	42%	46%	38%	30%	44%	48%	41%	40%	43%	42%
Byddwn yn defnyddio'r Cynllun Dychwelyd Ernes gan amlaf	19%	18%	21%	27%	18%	15%	25%	20%	17%	17%
Byddwn yn defnyddio'r Cynllun Dychwelyd Ernes weithiau	13%	10%	15%	21%	11%	9%	14%	13%	13%	14%
Ni fyddwn byth yn defnyddio'r Cynllun Dychwelyd Ernes – Byddwn yn dal i waredu'r eitemau hyn yn y ffordd arferol	17%	17%	18%	14%	17%	20%	14%	17%	17%	15%
Ddim yn gwybod	9%	9%	8%	8%	10%	8%	7%	11%	9%	12%

Sylfaen: Sampl graidd, Yr holl yfwyr (1011), Gwrywod (509), Benywod (497), 18-24 (276), 35-54 (315), 55+ (420), Yfwyr a niweidir yn cynnwys ychwanegiad (200), Yfwyr mewn perygl yn cynnwys ychwanegiad (313), Yfwyr cymedrol (623), Yfwyr incwm isel ac Yfwyr mewn Perygl neu Yfwyr a niweidir yn cynnwys ychwanegiad (208) C31 I ba raddau rydych yn credu y byddech yn defnyddio Cynllun Dychwelyd Ernes i waredu cynwysyddion diodydd alcoholaidd? Ar gyfer diodydd alcoholaidd a yfir yn y cartref

Tabl 7.3 Bwriad i ddefnyddio'r CDE i waredu cynwysyddion diodydd alcoholaidd lle yfir diodydd y tu allan i'r cartref ond y prynwyd nhw oddi wrth fanwerthwr (e.e. ar gyfer picnic, ar y traeth, mewn parc neu mewn trê)


	Yr holl yfwyr	Gwrywod	Benywod	18-34	35-54	55+	Yfwyr a niweidir	Yfwyr mewn perygl	Yfwyr cymedrol	Yfwyr incwm isel ac Yfwyr mewn perygl neu Yfwyr a niweidir
Byddwn yn defnyddio'r Cynllun Dychwelyd Ernes bob tro	40%	44%	37%	28%	41%	49%	39%	40%	41%	41%
Byddwn yn defnyddio'r Cynllun Dychwelyd Ernes gan amlaf	19%	19%	20%	21%	23%	15%	23%	18%	17%	17%
Byddwn yn defnyddio'r Cynllun Dychwelyd Ernes weithiau	16%	14%	18%	24%	13%	13%	17%	16%	16%	15%
Ni fyddwn byth yn defnyddio'r Cynllun Dychwelyd Ernes – Byddwn yn dal i waredu'r eitemau hyn yn y ffordd arferol	14%	13%	15%	15%	14%	13%	11%	13%	15%	13%
Ddim yn gwybod	11%	11%	11%	13%	10%	10%	9%	13%	11%	14%

Sylfaen: Sampl graidd, Yr holl yfwyr sy'n yfed diodydd alcoholaidd y tu allan i'r cartref (904), Gwrywod (454), Benywod (445), 18-24 (270), 35-54 (288), 55+ (351), Yfwyr a niweidir yn cynnwys ychwanegiad (183), Yfwyr mewn perygl yn cynnwys ychwanegiad (288), Yfwyr cymedrol (551), Yfwyr incwm isel ac Yfwyr mewn perygl neu Yfwyr a niweidir yn cynnwys ychwanegiad (190) C I ba raddau rydych yn credu y byddech yn defnyddio Cynllun Dychwelyd Ernes i waredu cynwysyddion diodydd alcoholaidd? Ar gyfer diodydd alcoholaidd a yfir y tu allan i'r cartref ond y prynwyd nhw oddi wrth fanwerthwr (e.e. ar gyfer picnic, ar y traeth, mewn parc neu mewn trê)

- 7.7 Er bod lefel y bwriad i ddefnyddio'r CDE y tu allan i'r cartref yn is ymysg rhai 18-34 blwydd oed nag ar gyfer grwpiau oedran eraill, o ran cynyddu cyfraddau ailgylchu, mae'r ymchwil yn awgrymu y byddai'r CDE yn dal i allu arwain at wella'r lefelau presennol yn y grŵp oedran hwn. Yn yr arolwg, roedd 62% o'r rhai 18-34 blwydd oed nad ydynt yn ailgylchu cynwysyddion y tu allan i'r cartref bob tro ar hyn o bryd wedi cytuno y byddent yn fwy tebygol o wneud hynny ar ôl cyflwyno CDE.
- 7.8 Holwyd cyfranogwyr yn yr arolwg a'r cyfweiliadau manwl am unrhyw anawsterau y gallent eu hwynebu wrth gasglu a dychwelyd cynwysyddion o dan y CDE. Mae'n bosibl y bydd y gallu i ddychwelyd cynwysyddion a hawlio'r ernes yn ôl (fel na cheir colled ariannol) yn ffactor pwysig o ran osgoi unrhyw newidiadau mewn ymddygiadau prynu a allai arwain at gynydd yn nifer yr unedau alcohol a yfir. Y prif reswm a nodwyd gan ymatebwyr yr arolwg dros deimlo y byddai'n anodd casglu a dychwelyd cynwysyddion oedd hwnnw a oedd yn ymwneud â thrin a storio cynwysyddion budr. Dywedodd bron tri ym mhob 10 (31%) y byddai'n anodd delio â'r angen i gario cynwysyddion budr o le i le, a chyfeiriodd cyfran debyg (28%) at yr angen i storio cynwysyddion budr yn y cartref cyn eu dychwelyd. Roedd prinder

gofod i storio cynwysyddion gwag yn anhawster ychwanegol mewn perthynas â storio yn y cartref: roedd 22% wedi nodi'r rheswm hwn (gweler Ffigur 7.9).

Ffigur 7.9 Rhwystrau i gasglu a dychwelyd cynwysyddion diodydd alcoholaidd gwag



Sylfaen: Sampl graidd, Yr holl yfwyr (1011) C32 A beth, os rhywbeth, rydych chi'n credu y byddai'n ei gwneud yn anodd i chi gasglu a dychwelyd cynwysyddion diodydd alcoholaidd gwag?

7.9 Roedd rhai gwahaniaethau o arwyddocâd ystadegol rhwng is-grwpiau o ran anawsterau wrth ddefnyddio'r CDE, fel y mae Tabl 7.4 yn dangos. Ymatebwyr i'r arolwg sy'n 18-34 blwydd oed oedd yn fwyaf tebygol o ddweud eu bod yn gweld anhawster o ryw fath wrth ddefnyddio'r CDE, gan fod 89% wedi dweud y byddai rhyw anhawster, o gymharu â 69% o'r rheini a oedd yn 55 mlwydd oed neu'n hŷn. Gan fod tuedd fwy iddynt yfed diodydd alcoholaidd y tu allan i'r cartref, roedd rhai 18–34 blwydd oed yn fwy tebygol o lawer o ddweud y byddai'r angen iddynt gario cynwysyddion diodydd budr yn rhwystr i ddefnyddio'r CDE yn y sefyllfa hon (37% o gymharu â 25% o ymatebwyr 55 mlwydd oed neu hŷn). Roedd diffyg amser hefyd wedi'i nodi'n ffactor pwysicach gan rai 18–34 blwydd oed, gan fod 37% wedi rhoi hyn yn rheswm o gymharu â 27% o rai 35-54 blwydd oed a 9% o rai dros 55 mlwydd oed. Roedd diffyg amser hefyd yn anhawster mwy i rieni i blant dan 18 oed, gan fod 34% wedi nodi bod hyn yn anhawster o gymharu â 18% o'r rheini heb blant. Ar wahân i hyn, gofynnwyd yn uniongyrchol i ymatebwyr yr arolwg ddweud pa mor

hawdd neu anodd fyddai iddynt yn eu bywyd pob dydd i 'ddod o hyd i'r amser i ddychwelyd cynwysyddion'. Teimlai hanner (51%) y rhai 18-34 blwydd oed y byddai'n anodd neilltuo amser i ddychwelyd cynwysyddion ac roedd 44% o rieni i blant dan 18 oed hefyd yn teimlo y byddent yn ei chael yn anodd dod o hyd i'r amser i ddychwelyd cynwysyddion diodydd.

Nododd un cyfwelai:

'Bydd yn un peth arall ychwanegol i mi orfod ei gofio...rhywbeth ychwanegol arall i famau sy'n gweithio, tasg arall heb dâl amdani...beth os bydd y ciw yn hir, faint o amser y bydd hynny'n ychwanegu i'r amser siopa.' Benyw, 35-44, Yfwr cymedrol

Tabl 7.4 Rhwystrau i gasglu a dychwelyd cynwysyddion diodydd alcoholaidd gwag

	Yr holl yfwr	18-34	35-54	55+	Plant ar yr aelwyd sy'n <18 oed	Yfwr a niweidir	Yfwr mewn perygl	Yfwr cymedrol	Incwm isel	Nid incwm isel	Yfwr incwm isel ac Yfwr mewn perygl neu Yfwr a niweidir
Os yn yfed y tu allan i'r cartref – angen cario cynwysyddion diodydd budr nes i mi ddod o hyd i fan dychwelyd	31%	37%	34%	25%	37%	34%	33%	30%	28%	32%	33%
Angen storio / trin cynwysyddion diodydd budr yn y cartref	28%	32%	23%	29%	29%	28%	27%	28%	26%	28%	25%
Diffyg amser Prinder gofod o fewn y cartref i storio cynwysyddion gwag	22%	37%	27%	9%	34%	22%	26%	20%	18%	24%	21%
Nifer y cynwysyddion gwag y byddai angen i mi eu dychwelyd	22%	23%	26%	18%	24%	25%	19%	22%	19%	23%	21%
Anawsterau cludiant e.e. dim mynediad at gar, ddim yn gyrru, mynediad gwael at drafnidiaeth gyhoeddus	22%	22%	25%	20%	26%	29%	25%	17%	17%	24%	23%
Rydw i'n byw mewn ardal wledig	18%	20%	18%	16%	18%	23%	18%	16%	22%	15%	23%
Teimlad y gallai eraill fy meirniadu ar sail mathau neu niferoedd y cynwysyddion diodydd alcoholaidd rydw i'n eu dychwelyd	17%	12%	17%	20%	17%	15%	19%	17%	19%	15%	18%
Mae gen i anabledd	11%	14%	12%	8%	14%	21%	16%	7%	12%	11%	19%
Does gen i ddim mynediad at fan storio y tu allan (e.e. yn byw mewn fflat)	8%	5%	8%	9%	5%	12%	6%	8%	13%	5%	13%
Rheswm meddygol Rydw i'n byw mewn llety a rennir (tŷ a rennir neu lety myfyrwyr)	7%	11%	6%	6%	7%	10%	9%	6%	11%	6%	12%
	4%	3%	6%	4%	4%	9%	4%	4%	7%	3%	8%
	3%	9%	2%	1%	2%	7%	3%	2%	3%	3%	4%

Eiddilwch	3%	4%	3%	2%	3%	4%	2%	2%	2%	3%	4%
Dim	22%	11%	19%	31%	18%	15%	20%	24%	20%	24%	16%

Sylfaen: Sampl graidd, Yr holl yfwyr (1011), Gwrywod (509), Benywod (497), 18-24 (276), 35-54 (315), 55+ (420), Plant ar yr aelwyd sy'n <18 oed (249), Yfwyr a niweidir yn cynnwys ychwanegiad (200), Yfwyr mewn perygl yn cynnwys ychwanegiad (313), Yfwyr cymedrol (623), Yfwyr ar incwm isel yn cynnwys ychwanegiad (559), Yfwyr ar incwm isel ac Yfwyr mewn perygl neu Yfwyr a niweidir yn cynnwys ychwanegiad (208) C32 A beth, os rhywbeth, rydych chi'n credu y byddai'n ei gwneud yn anodd i chi gasglu a dychwelyd cynwysyddion diodydd alcoholaidd gwag?

7.10 Ymysg yfwyr ar incwm is, roedd anawsterau cludiant (e.e., dim mynediad at gar, ddim yn gyrru, mynediad gwael at drafnidiaeth gyhoeddus) yn fwy tebygol o lawer o gael ei nodi'n anhawster (22%) o gymharu â'r rheini ar incwm uwch (15%). Ymysg yfwyr a niweidir, roedd nifer y cynwysyddion y byddai angen iddynt eu dychwelyd (29%) a phryder ynghylch eu beirniadu ar sail mathau neu niferoedd y cynwysyddion diodydd alcoholaidd (21%) yn fwy o ystyriaeth nag ymysg yfwyr cymedrol (17% a 7% yn y drefn honno), fel y mae Tabl 7.5 yn dangos. Pan ofynnwyd iddynt yn uniongyrchol yn yr arolwg, roedd 43% o yfwyr a niweidir a 35% o yfwyr mewn perygl wedi cytuno â'r datganiad 'Byddwn yn poeni y byddai pobl eraill yn fy meirniadu ar sail nifer neu fathau'r cynwysyddion alcohol y gallwn eu dychwelyd'.²⁷ Roedd hyn wedi'i adlewyrchu hefyd yn yr ymchwil ansoddol.

'Dydw i ddim am fynd i mewn i'r siop gyfleustra leol gyda llond bag o boteli gwydr a chaniau. Os byddai nifer mawr gennyh chi, byddai pobl yn eich beirniadu.'
Benyw, 35-54, Yfwr a niweidir

'Byddai hynny'n codi cywilydd ar rywun, rhaid i mi fynd â nhw i'r siop hefyd, a byddan nhw'n eu cyfri o'm blaen. Beth fyddan nhw'n ei feddwl? Rydw i'n gorfod mynd i'r siop gyda llwyth o ganiau cwrw, o flaen yr holl gwsmeriaid.' Gwryw, 35-54, Yfwr a niweidir


Yn y cyfweiliadau manwl, roedd yfwyr a niweidir wedi dweud wrthym y byddent yn delio â hyn drwy fynd i'r manau dychwelyd pan oedd yn ddistaw neu'n mynd i leoedd lle byddai llai o bobl yn eu hadnabod.

7.11 Gyda golwg ar resymau dros ddefnyddio'r CDE, y prif reswm a roddwyd gan ymatebwyr yr arolwg oedd cael yr ernes yn ôl (54%). Yn yr un modd, dywedodd 49% mai hwnnw fyddai'r prif reswm dros gymryd rhan yn y CDE (gweler Ffigur

²⁷ Cwestiwn rhif 72

7.10). Derbyn ernesau oedd y prif reswm a roddwyd ymysg yr holl grwpiau oedran a'r holl fathau o yfwyr. Mae'r rhesymau eraill a roddwyd dros gymryd rhan yn y cynllun yn debyg i'r rheini a roddwyd dros deimlo'n gadarnhaol amdano, yn cynnwys helpu i leihau sbwriel (35%), helpu'r amgylchedd (34%) a helpu i gynyddu nifer y poteli a chaniau sy'n cael eu hailgylchu.

Ffigur 7.10 Rhesymau dros Gymryd Rhan yn y CDE



Sylfaen: Sampl graidd, Yr holl yfwyr (1011) C73 Gan feddwl am y Cynllun Dychwelyd Ernes mewn perthynas â'r diodydd alcoholaidd rydych yn eu prynu oddi wrth fanwerthwyr. Os byddech yn dychwelyd cynwysyddion drwy'r CDE (yn hytrach na'u hailgylchu/gwaredu fel y byddwch yn gwneud fel arfer), beth fyddai'ch rhesymau dros wneud hynny?

7.12 Gyda golwg ar y ffordd roedd ymatebwyr yr arolwg yn credu y byddent yn defnyddio'r talebau, dywedodd y rhan fwyaf y byddent yn eu defnyddio at brynu nwyddau groser, un ai drwy eu cadw wrth gefn (40%), neu eu defnyddio'n syth (16%). Mae yfwyr a niweidir yn llai tebygol o lawer o ddefnyddio talebau at brynu nwyddau groser o gymharu ag yfwyr cymedrol; dywedodd 27% y byddent yn cadw talebau wrth gefn i'w cyfnewid wrth brynu nwyddau groser o gymharu â 44% o yfwyr cymedrol. Dywedodd pedwar ym mhob deg (40%) o yfwyr a niweidir y byddent yn defnyddio talebau ar gyfer pryniannau alcohol eraill.

Tabl 7.5 Sut roedd ymatebwyr yr arolwg yn disgwyl y byddent yn defnyddio'r talebau

	Yr holl yfwyr	Gwrywod	Benywod	18-34	35-54	55+	Yfwyr a niweidir	Yfwyr mewn perygl	Yfwyr cymedrol	Yfwyr incwm isel ac Yfwyr mewn perygl neu Yfwyr a niweidir
Byddwn yn eu cadw wrth gefn i'w cyfnewid wrth siopa am nwyddau groser cyffredinol	40%	37%	43%	39%	38%	42%	27%	37%	44%	30%
Byddwn yn eu cadw wrth gefn i'w cyfnewid ar gyfer pryniannau alcohol eraill	12%	13%	11%	16%	11%	10%	23%	15%	9%	16%
Byddwn yn dychwelyd y cynwysyddion, yn casglu'r daleb ac yn ei defnyddio'n syth wrth siopa am nwyddau groser eraill	16%	15%	16%	18%	15%	15%	15%	19%	16%	19%
Byddwn yn dychwelyd y cynwysyddion, yn casglu'r daleb ac yn ei defnyddio'n syth ar gyfer pryniannau alcohol eraill	7%	9%	5%	8%	7%	6%	17%	6%	4%	14%
Arall	2%	1%	2%	1%	2%	2%	2%	1%	2%	2%
Ddim yn gwybod	10%	11%	10%	7%	13%	11%	9%	10%	11%	10%
Amherthnasol – Ni fyddwn yn defnyddio'r cynllun i waredu cynwysyddion diodydd alcoholaidd	13%	14%	12%	10%	14%	13%	9%	10%	14%	9%

Sylfaen: Sampl graidd, Yr holl yfwyr (1011), Gwrywod (509), Benywod (497), 18-24 (276), 35-54 (315), 55+ (420), Yfwyr a niweidir yn cynnwys ychwanegiad (200), Yfwyr mewn perygl yn cynnwys ychwanegiad (313), Yfwyr cymedrol (623), Yfwyr ar incwm isel ac Yfwyr mewn perygl neu Yfwyr a niweidir yn cynnwys ychwanegiad (208) C71 Pa un o'r canlynol sy'n disgrifio orau beth rydych yn credu y byddech yn ei wneud â thalebau a gafwyd am ddychwelyd cynwysyddion diodydd alcoholaidd?

8. Effaith ar Ymddygiadau Prynu Alcohol wrth Weithredu Cynllun Dychwelyd Ernes


- 8.1 Pwrpas yr adran hon yw crynhoi canfyddiadau'r ymchwil ynghylch y ffordd y mae defnyddwyr yn rhag-weld y byddant yn newid (os o gwbl) y math o alcohol y maent yn ei brynu a'i yfed, a fformatiau'r cynwysyddion y byddant yn eu prynu wrth gyflwyno'r CDE. Bydd yn ymdrin yn benodol ag effaith ddichonol y CDE ar brynu diodydd â chynnwys alcohol is mewn aml-becynnau, ac i ba raddau y gallai gymell pobl i newid eu hymddygiad i brynu diodydd â chynnwys alcohol cryfach mewn fformatiau pecyn sengl. Yn ogystal â hyn, ystyrir a oes unrhyw amrywiadau mewn ymddygiad rhwng y rheini sydd â lefelau yfed neu lefelau incwm gwahanol (gan roi sylw yn benodol i yfwyr mewn perygl ac yfwyr a niweidir a phobl ar incwm is). Bydd hefyd yn edrych ar y graddau y byddai gwahanol lefelau ernes yn debygol o effeithio ar ymddygiad prynu alcohol.
- 8.2 Yn ystod yr ymchwil, ar gyfer pob math o alcohol a phob math o becyn roedd ymatebwyr yn eu prynu fel arfer, gofynnwyd iddynt nodi a fyddent yn parhau i brynu'r un math o becyn (ac os felly, sut byddent yn ei waredu), yn newid i becyn o fath arall neu'n rhoi'r gorau i brynu'r math o alcohol yn gyfan gwbl. Holwyd am hyn yng nghyd-destun ernes o 20c ac ernes o 30c ar wahân. Dangoswyd symiau'r ernes ar gyfer pob math o becyn, fel bod cyfranogwyr yn glir ynghylch faint yn union o arian ychwanegol y byddent yn ei dalu yn y man prynu (er bod modd ei gael yn ôl). Yn achos y rheini a ddywedodd y byddent yn newid y math o becyn neu'r math o alcohol, gofynnwyd cwestiynau dilynol am beth y byddent yn newid iddo, a pham.

Cwrw

- 8.3 Yn y sampl graidd (yr holl yfwyr), dywedodd 63% eu bod wedi yfed cwrw yn y 12 mis diwethaf. Cwrw oedd y math mwyaf cyffredin o alcohol a brynwyd mewn aml-becynnau, fel y mae Ffigur 8.1 yn dangos. Yn y sampl graidd, roedd 49% o'r holl yfwyr wedi dweud eu bod yn arfer prynu cynhyrchion cwrw mewn aml-becynnau, o gymharu â 30% a brynai seidr mewn aml-becynnau. Roedd dynion yn fwy tebygol o lawer o brynu cynhyrchion cwrw mewn aml-becynnau (63%) nag yr oedd menywod (34%). Roedd yfwyr a niweidir ac yfwyd mewn perygl hefyd yn fwy tebygol o brynu

cynhyrchion cwrw mewn aml-becynnau, gan fod 60% o'r holl yfwyr a niweidir a 58% o'r holl yfwyr mewn perygl yn gwneud hynny, o gymharu â 42% o yfwyr cymedrol.

Ffigur 8.1 Y ganran o'r holl yfwyr sydd fel arfer yn prynu cynhyrchion cwrw neu seidr mewn aml-becynnau




Sylfaen: Ailsylfaenu ar yr holl yfwyr, sampl graidd (1011), Gwrywod (509), Benywod (497), 18-34 (276), 35-54 (315), 55+ (420), Yfwyr a niweidir yn cynnwys ychwanegiad (200), Yfwyr mewn perygl yn cynnwys ychwanegiad (313), Yfwyr cymedrol (623), Yfwyr ar incwm isel yn cynnwys ychwanegiad (559), Yfwyr ar incwm isel ac Yfwyr mewn perygl neu Yfwyr a niweidir yn cynnwys ychwanegiad (208) C22 Gan feddwl am y mathau canlynol o alcohol rydych yn eu prynu oddi wrth fanwerthwyr, ym mha fathau o becyn y byddwch yn prynu'r rhain fel arfer? Dewiswch yr holl fathau o becyn rydych yn eu prynu fel arfer.

8.4 Wrth gyflwyno'r CDE, dywedodd mwyafrif helaeth (92%) yr yfwyr cwrw yn y sampl y byddent yn parhau i yfed cwrw gyda CDE 20c, a'r ffigur hwnnw'n gostwng dim ond ychydig i 90% gyda CDE 30c. O'r rheini a fyddai'n parhau i brynu cwrw, ar gyfartaledd ar gyfer yr holl fathau o aml-becyn²⁸ byddai tua phedwar ym mhob pump yn parhau i brynu'r un math o aml-becyn, ac ni welwyd gwahaniaeth o arwyddocâd ystadegol yn yr ymddygiad bwriadedig os oedd lefel yr ernes yn 20c neu'n 30c (81% a 79%), fel y mae Ffigur 8.2 yn dangos. Nid oedd gwahaniaethau o arwyddocâd ystadegol yn yr ymddygiad bwriadedig ymysg yfwyr mewn perygl neu yfwyr a niweidir nac ymysg cyfranogwyr ar incwm is o gymharu â'r sampl gyfan.

²⁸ Y mathau o aml-becynnau o ganiau a ddangoswyd yn cynnwys - 4 x 440ml, 4 x 568ml, 10 x 440ml. Y mathau o aml-becynnau o boteli gwydr yn cynnwys 4 x 330ml, 12 x 330ml. Roedd y fformatiau sengl yn cynnwys caniau sengl, poteli gwydr sengl 550ml, poteli gwydr sengl 660ml

Gyda golwg ar gwrw mewn fformatiau sengl, roedd ymatebwyr yn fwy tebygol o gredu y byddent yn cadw at becyn o'r math hwn o gymharu ag aml-becynnau; 89% (ernes o 20c) ac 88% (ernes o 30c), gan fwriadu parhau i brynu'r un mathau o becyn sengl.

Ffigur 8.2 Disgwyliadau o ran ymddygiad prynu cwrw wrth gyflwyno'r CDE: Bwriad i brynu mathau o becynnau




Sylfaen: Sampl graidd (heb gynnwys ychwanegiadau), Yfwyr cwrw a fyddai'n parhau i brynu cwrw. Senario 20c (521) a Senario 30c (512) C33 Gan feddwl am y mathau o alcohol rydych yn eu prynu oddi wrth fanwerthwyr a'r pecynnau rydych yn eu prynu ynddynt, pa opsiwn sy'n disgrifio'n fwyaf agos beth fydddech yn ei wneud wrth gyflwyno Cynllun Dychwelyd Ernes XXc?

8.5 O ran ymddygiadau ailgylchu, nid yw'n ymddangos bod lefel yr ernes (gan ddefnyddio 20c a 30c yn enghreifftiau) yn dylanwadu ar y duedd i ddychwelyd caniau neu boteli cwrw aml-becyn yn y CDE. O'r rheini a ddywedodd y byddent yn parhau i brynu cwrw mewn aml-becynnau, gan barhau i'w brynu yn yr un fformat, ar gyfartaledd byddai 63% bob amser yn dychwelyd cynwysyddion drwy'r CDE os oedd ernes o 20c a 66% os oedd ernes o 30c, fel y mae Ffigur 8.3 yn dangos. Fodd bynnag, ar gyfartaledd ar gyfer yr holl fathau o aml-becyn a brynir, roedd yfwyr a niweidir neu yfwyr mewn perygl yn y sampl yn llai tebygol o nodi y byddent bob amser yn dychwelyd cynwysyddion drwy'r CDE o gymharu ag yfwyr cymedrol. Ymysg yfwyr a niweidir, credai 58% y byddent bob amser yn dychwelyd

cynwysyddion gyda CDE 20c, o gymharu â 70% ar gyfer yfwyr cymedrol, a 58% a 71% ar gyfer CDE 30c yn y drefn honno. Roedd tuedd ychydig yn uwch ymysg yfwyr a niweidir ac yfwyr mewn perygl ar incwm isel i ddweud y byddent bob amser yn dychwelyd cynwysyddion drwy'r CDE (68% ar 20c), ond roedd cyfranogwyr ar incwm is yn gyffredinol yn fwy tebygol o nodi y byddent yn dychwelyd cynwysyddion cwrw aml-becyn o gymharu â'r rheini ar incwm uwch (70% o gymharu â 60% ar 20c).

Ffigur 8.3 Bwriad i ddychwelyd cynwysyddion cwrw aml-becyn bob amser lle byddai'r un fformat yn parhau i gael ei brynu




Sylfaen: Yfwyr cwrw a fyddai'n parhau i brynu cwrw, cyfartaledd rhwng fformatiau lle byddai'r un fformat yn parhau i gael ei brynu, 20c/30c, Caniau 4x440ml (137/137), Caniau 10x440ml (117/115), Caniau 4x568ml (83/77), Poteli gwydr 4x330ml (48/43), Poteli gwydr 12x330ml (103/101) C33 Gan feddwl am y mathau o alcohol rydych yn eu prynu oddi wrth fanwerthwyr a'r pecynnau rydych yn eu prynu ynddynt, pa opsiwn sy'n disgrifio'n fwyaf agos beth fydddech yn ei wneud wrth gyflwyno Cynllun Dychwelyd Ernes XXc?

8.6 Gyda golwg ar faint o gwrw y byddai defnyddwyr yn ei brynu, dywedodd 66% o ymatebwyr yr arolwg a yfai gwrw y byddent yn parhau i brynu'r un maint o gwrw wrth gyflwyno'r CDE ar ernes o 20c, a 63% os oedd ar ernes o 30c. Er hynny, dywedodd 23% y byddent yn prynu llai o gwrw neu'n rhoi'r gorau i brynu cwrw yn gyfan gwbl os oedd ernes o 20c, a'r ffigur hwnnw'n codi i 26% os oedd ernes o 30c. Yfwyr a niweidir oedd yn fwyaf tebygol o nodi y byddent yn parhau i brynu'r un

maint o gwrw ar ernes o 20c neu 30c (72% ar gyfer y ddwy lefel ernes) o gymharu ag yfwyr cymedrol (64% ar 20c a 59% ar 30c).

Ffigur 8.4 O'r yfwyr cwrw a fyddai'n prynu llai o gwrw neu'n rhoi'r gorau i brynu cwrw wrth gyflwyno'r CDE, i ba fath o ddioid y byddent yn newid




Sylfaen: Prynwyr cwrw a ddywedodd y byddent yn prynu llai o gwrw wrth gyflwyno CDE mewn ymateb i gwestiwn yn (C43x) Ac wrth gyflwyno Cynllun Dychwelyd Ernes_20c, sut rydych yn credu y byddai hyn yn dylanwadu ar faint o gwrw rydych yn ei brynu'n gyffredinol? Neu os dewiswyd: Byddwn yn rhoi'r gorau i'w brynu yn gyfan gwbl yn C33 Gan feddwl am y mathau o alcohol rydych yn eu prynu oddi wrth fanwerthwyr a'r pecynnau rydych yn eu prynu ynddynt, pa opsiwn sy'n disgrifio'n fwyaf agos beth fydddech yn ei wneud wrth gyflwyno Cynllun Dychwelyd Ernes XXc? 20c 133 a 30c 147 Cyfeiriad yn y testun Yfwyr a niweidir neu Yfwyr mewn perygl (73) C35 Wrth gyflwyno Cynllun Dychwelyd Ernes o xxc, roeddech wedi dweud y bydddech yn prynu llai o gwrw neu'n rhoi'r gorau i brynu cwrw yn gyfan gwbl. Beth, os rhywbeth, rydych yn credu y bydddech yn fwyaf tebygol o'i brynu yn ei le?

8.7 O'r chwarter (26%) o ymatebwyr yr arolwg a nododd y byddent yn prynu llai o gwrw neu'n rhoi'r gorau i brynu cwrw ar ernes o 30c, dywedodd tua un ym mhob pump (20%/18%) y byddent yn newid i fathau alcohol â lefel alcohol uwch mewn pecyn sengl (gwirodydd, gwin, gwirodlynnau neu win cadarn), fel y mae Ffigur 8.4 yn dangos. Mae hyn yn cyfateb i 4% a 5% o'r holl brynwyr cwrw yn yr arolwg ar gyfer CDE 20c a CDE 30c yn y drefn honno. Byddai cyfran debyg o yfwyr mewn perygl neu yfwyr a niweidir (5% ar 20c a 7% ar 30c) yn newid i fathau alcohol â lefel alcohol uwch mewn pecyn sengl. Ar 7%, mae hyn yn uwch o lawer nag ar gyfer yfwyr cymedrol (gweler Ffigur 8.5). Er hynny, ar lefel o 7%, nid oes arwyddocâd

ystadegol i'r graddau y mae'r rheini sy'n yfwyr mewn perygl neu'n yfwyr a niweidir yn fwy tebygol o newid i ddiodydd cryfach o gymharu ag yfwyr cwrw yn gyffredinol. Roedd ymatebwyr 18-34 oed yn fwy tebygol o lawer o ddweud y byddent yn newid o gymharu â'r rheini dros 55 oed.

Ffigur 8.5 Cyfran yr holl brynwyr cwrw yn yr arolwg a gredai y byddent yn newid o seidr i fathau alcohol cryfach mewn fformat sengl (gwin, gwirodydd, gwirodlynnau neu win cadarn) wrth gyflwyno CDE



Sylfaen: Ailsylfaenu ar yr holl brynwyr cwrw, Cyfanswm 562, Gwrywod (370), Benywod (191), 18-34 (146), 35-54 (182), 55+ (234), Yfwyr a niweidir neu Yfwyr mewn perygl yn cynnwys ychwanegiad (334), Yfwyr ar incwm isel yn cynnwys ychwanegiad (281), Yfwyr ar incwm isel ac Yfwyr mewn perygl neu Yfwyr a niweidir yn cynnwys ychwanegiad (126) C35 a C51 Wrth gyflwyno Cynllun Dychwelyd Ernes o 20c, roeddech wedi dweud y bydddech yn prynu llai o gwrw neu'n rhoi'r gorau i brynu cwrw yn gyfan gwbl. Beth, os rhywbeth, rydych yn credu y bydddech yn fwyaf tebygol o'i brynu yn ei le?

Mae'r rhesymau a roddwyd dros newid yn ymwneud â chael gwerth am arian wrth brynu alcohol, cyfleustra neu'r swm y gellid ei golli os na ddychwelir cynwysyddion (gweler Ffigur 8.6). Roedd un rhan o bump yn ychwanegol (19%) o'r rheini a nododd y byddent yn prynu llai o gwrw wrth gyflwyno CDE yn ansicr beth fyddent yn ei wneud (a fyddent yn newid i fath gwahanol o alcohol, yn prynu math o ddiodydd ysgafn neu'n peidio â phrynu dim yn ei le). Felly, mae'n bosibl y byddai cyfran o'r rhain hefyd yn gallu newid i ddiodydd cryfach mewn fformat sengl. Fodd bynnag, roedd 42% o'r holl yfwyr cwrw a deimlai y byddent yn prynu llai o gwrw neu'n rhoi'r gorau i'w brynu yn gyfan gwbl wrth gyflwyno CDE, yn credu na fyddent yn prynu dim yn lle cwrw.

Ffigur 8.6 Enghreifftiau o resymau dros newid o gwrw i wirodydd, gwin, gwirodlynnau neu win cadarn wrth gyflwyno CDE: Ymatebion testun rhydd yn yr arolwg

<p>Yfwyr mewn perygl neu Yfwyr a niweidir</p>	<p>Incwm isel</p>
<p>‘Mae’n debygol y byddwn yn yfed mwy o wirodydd gan y byddai’n haws dychwelyd y poteli’</p> <p>‘Llai o arian, mwy o alcohol’</p> <p>‘Byddaf yn fodlon o gael gwirodydd â lefel uchel o alcohol heb nifer mawr o boteli gwag gartref’</p> <p>‘Dim ond un botel i’w dychwelyd yn hytrach na llawer ohonyn nhw’</p> <p>‘Rydych chi’n cael gwell gwerth am arian os byddwch yn dewis peidio â dychwelyd y botel a cholli dim ond 30c yn hytrach na £1.20 ar bedwar o ganiau. Mae’n ffordd arall i’r llywodraeth wneud arian’</p>	<p>‘Am na fyddwn yn gallu dychwelyd y caniau bob tro a dros gyfnod hirach, byddwn yn colli llawer o arian’</p> <p>‘Fel un sydd heb allu teithio, ni fyddwn yn gallu mynd â’r cynnyrch yn ôl ac rydw i’n ailgylchu pob dim beth bynnag felly byddai’n well gen i golli 30c ar wirodydd na thair punt ar ganiau’</p> <p>‘Fyddwn i ddim yn gallu fforddio cwrw ond dydy tâl o 30c ar rywbeth rydych chi’n ei gymysgu ddim cynddrwg â hynny’</p>

C Allwch chi ddweud wrthym pam rydych yn credu y byddech yn prynu....yn hytrach na chwrrw, wrth gyflwyno cynllun dychwelyd ernes 20c?

8.8 Un newid a welwyd yn Croatia ac Estonia, sydd wedi’i gofnodi yn yr adolygiad llenyddiaeth, oedd troi at gynwysyddion mwy ar gyfer cwrw wrth gyflwyno CDE (e.e., o 330ml i 568ml). Am mai cyfran fach o ymatebwyr yr arolwg a fyddai’n newid i fath gwahanol o becyn o ganlyniad i gyflwyno’r CDE, ni ellir rhag-weld yn sicr beth fyddai’r duedd i newid i feintiau cynhwysydd mwy. Fodd bynnag, mae yfwyr a niweidir sy’n prynu cwrw eisoes yn fwy tebygol o lawer o brynu cynwysyddion mwy mewn aml-becynnau o ganiau gan fod 31% ohonynt yn prynu pecynnau caniau 4x568ml o gymharu â 14% o yfwyr cwrw cymedrol (fel y mae Tabl 8.1 yn dangos).

Tabl 8.1 Canran yr yfwyr cwrw sy'n prynu pob un o'r mathau o becynnau cwrw

	Yr holl bryn wyr cwrw	18-34	35-54	55+	Yfwyr a niweidir	Yfwyr mewn perygl	Yfwyr cymedrol	Incwm isel	Incwm isel ac Yfwyr mewn perygl neu Yfwyr a niweidir
Caniau sengl	8%	12%	8%	6%	10%	5%	8%	8%	9%
Aml-becyn caniau 4 x 440ml	34%	38%	33%	32%	30%	30%	37%	39%	34%
Aml-becyn caniau 4 x 568ml	21%	28%	24%	14%	31%	27%	14%	23%	33%
Aml-becyn caniau 10 x 440ml	28%	33%	32%	23%	34%	30%	26%	25%	29%
Poteli gwydr sengl 500ml	17%	13%	16%	20%	15%	13%	19%	13%	13%
Poteli gwydr sengl 660ml	8%	13%	10%	5%	8%	8%	8%	7%	8%
Poteli gwydr mewn aml-becyn 12 x 330ml	23%	24%	18%	27%	15%	27%	25%	20%	19%
Poteli gwydr mewn aml-becyn 4 x 330ml	11%	13%	11%	9%	6%	11%	12%	11%	10%

Sylfaen: Prynwyr cwrw (566), Gwrywod (371), Benywod (194), 18-34 (146), 35-54 (184), 55+ (236), Yfwyr a niweidir yn cynnwys ychwanegiad (138), Yfwyr mewn perygl yn cynnwys ychwanegiad (201), Yfwyr cymedrol (306), Yfwyr ar incwm isel (283), Yfwyr ar incwm isel ac Yfwyr a niweidir neu Yfwyr mewn perygl (127). C22 Gan feddwl am y mathau canlynol o alcohol rydych yn eu prynu oddi wrth fanwerthwyr, ym mha fathau o becyn fyddwch yn prynu'r rhain fel arfer? Dewiswch yr holl fathau o becyn y byddwch yn eu prynu fel arfer


Seidr

8.9 Yn y sampl graidd (yr holl yfwyr), dywedodd 46% eu bod wedi yfed seidr yn y 12 mis diwethaf. Roedd seidr yn cael ei yfed yn llai aml na chwrw yn gyffredinol gan y rheini yn y sampl. Fel y mae Ffigur 8.7 yn dangos, ar gyfer yr holl fathau o seidr (safonol, cyflas, premiwm/rhywiog, a chryfder uwch²⁹) roedd 33% o'r sampl graidd yn yfed seidr o leiaf unwaith y mis, o gymharu â 52% a oedd yn yfed cwrw (cwrw safonol neu gryf) o leiaf unwaith y mis. Roedd tri ym mhob deg (30%) o'r holl yfwyr yn prynu aml-becynnau o seidr (gweler Ffigur 8.1). Roedd y rheini yn y sampl sy'n 18-34 oed yn fwy tebygol i raddau ystadegol arwyddocaol o brynu aml-becynnau o gynhyrchion seidr (42%) na'r rheini sy'n 35-54 oed (28%) neu'n hŷn na 55 oed (24%). Mae yfwyr a niweidir ac yfwyr mewn perygl hefyd yn fwy tebygol o brynu

²⁹ Seidr safonol – blas afal ag ABV nodweddiadol o 4.5% i 5%, Seidr â chyflas ffrwythau e.e. blas mwyr, Seidr premiwm/rhywiog a werthir fel arfer mewn poteli gwydr gydag ABV uwch o 6%+, Seidr cryfach e.e. seidr gwyn.

aml-becynnau o gynhyrchion seidr, gan fod 43% a 38% yn gwneud hynny, o gymharu â 24% o yfwyr cymedrol.

Ffigur 8.7 Canrannau ymatebwyr yr arolwg a oedd yn yfed seidr a chwrrw o leiaf unwaith y mis



Sylfaen: Sampl graidd, Yr holl yfwyr (1011), Gwrywod (509), Benywod (497) 18-34 (276), 35-54 (315), 55+ (420) Yfwyr a niweidir yn cynnwys ychwanegiad (200), Yfwyr mewn perygl yn cynnwys ychwanegiad (313), Yfwyr cymedrol (623), Yfwyr ar incwm isel ac Yfwyr mewn perygl neu Yfwyr a niweidir yn cynnwys ychwanegiad (208) C11 Yn ystod y 12 mis diwethaf, pa mor aml rydych wedi cael diod o'r mathau canlynol o seidr? C9 Yn ystod y 12 mis diwethaf, pa mor aml rydych wedi cael diod o'r mathau canlynol o gwrw?

8.10 Roedd mwyafrif helaeth (92%) yr yfwyr seidr yn y sampl wedi dweud y byddent yn parhau i yfed seidr wrth gyflwyno CDE 20c, ac roedd ffigur tebyg o 91% ar gyfer CDE 30c³⁰. O'r rheini a fyddai'n parhau i brynu seidr, ar gyfartaledd rhwng y gwahanol fathau o aml-becyn³¹ byddai tua phedwar ym mhob pump yn parhau i brynu'r un mathau o aml-becyn, ac ni welwyd unrhyw wahaniaeth o arwyddocâd ystadegol yn yr ymddygiad bwriadedig os oedd lefel yr ernes yn 20c neu'n 30c (82% a 78%). Nid oedd unrhyw wahaniaethau o arwyddocâd ystadegol yn yr ymddygiad bwriadedig ymysg yfwyr mewn perygl neu yfwyr a niweidir neu ymysg cyfranogwyr ar incwm is o gymharu â'r sampl gyfan. Yn yr un modd â'r

³⁰ Cwestiynau C33C a C49C yn yr holiadur


³¹ Roedd y mathau o aml-becyn yn cynnwys aml-becynnau caniau 4 x 330ml, caniau 4 x 440ml, caniau 4 x 568ml (peint), caniau 10 x 440ml, caniau 10 x 330ml, fformatiau sengl, poteli gwydr sengl 500ml, caniau a photeli plastig sengl 2 litr neu 2.5 litr

canfyddiadau am gwrw, roedd ymatebwyr ychydig yn fwy tebygol o ddweud y byddent yn aros gyda fformatiau sengl na chydag aml-becynnau (87% ar gyfer ernes o 20c ac 85% ar gyfer ernes o 30c), ond nid oes arwyddocâd ystadegol i'r gwahaniaeth hwn.

- 8.11 Am mai cymharol isel oedd nifer yr ymatebwyr a gredai y byddent yn prynu pecyn o fath gwahanol, ni ellir darparu tystiolaeth am newid i fathau eraill o becyn.
- 8.12 O ran y bwriad i ailgylchu cynwysyddion diodydd, mae'n ymddangos eto yn achos prynwyr seidr nad oes gwahaniaeth o arwyddocâd ystadegol os yw'r ernes yn 20c neu'n 30c. O'r rheini a ddywedodd y byddent yn parhau i brynu seidr, ac yn yr un fformat aml-becyn, ar gyfartaledd byddai 57% ohonynt bob amser yn dychwelyd cynwysyddion drwy'r CDE ar lefel ernes o 20c, ac roedd canran debyg (58%) ar gyfer lefel ernes o 30c. Fodd bynnag, ar gyfartaledd rhwng y mathau o aml-becyn a brynir, roedd yfwyr a niweidir neu yfwyr mewn perygl yn y sampl yn llai tebygol o nodi y byddent bob amser yn dychwelyd cynwysyddion drwy'r CDE o gymharu ag yfwyr cymedrol (e.e., ar lefel ernes o 20c, y canrannau oedd 52% ar gyfer yfwyr a niweidir a 62% ar gyfer yfwyr cymedrol).
- 8.13 O fewn y sampl, rhai 18-34 blwydd oed a oedd yn yfed seidr amlaf, ond y grŵp oedran hwn hefyd oedd yr un lle'r oedd y bwriad i ddychwelyd cynwysyddion drwy'r CDE ar ei lefel isaf. Ar gyfartaledd, rhwng y mathau o aml-becyn a brynir, ar lefel ernes o 20c, dywedodd 42% yn y grŵp oedran hwn y byddent bob amser yn dychwelyd cynwysyddion seidr o aml-becyn o gymharu â 77% o'r rheini sy'n 55 oed neu'n hŷn. Ar lefel o 30c, roedd y canrannau'n debyg, sef 39% ac 82% yn y drefn honno.
- 8.14 Gyda golwg ar faint y seidr y byddai defnyddwyr yn ei brynu, dywedodd 64% o ymatebwyr yr arolwg a yfai seidr y byddent yn parhau i brynu'r un maint o seidr ar ôl cyflwyno'r CDE ar 20c, a 57% os oedd yn 30c. Fodd bynnag, byddai 24% yn prynu llai o seidr neu'n rhoi'r gorau i brynu seidr yn gyfan gwbl ar lefel ernes o 20c, a'r ffigur hwnnw'n codi i 29% os oedd ernes o 30c. Yn achos yfwyr seidr, nid oedd gwahaniaethau o arwyddocâd ystadegol rhwng gwahanol fathau o yfwyr nac yn ôl cyfoeth, ond roedd rhai 18–34 blwydd oed (a yfai seidr amlaf) yn fwy tebygol o

lawer o ddweud y byddent yn prynu llai ohono neu'n rhoi'r gorau i'w brynu'n gyfan gwbl (39% o gymharu â 20% o'r rheini sy'n 55 oed neu'n hŷn).

Ffigur 8.8 O'r yfwy'r seidr a fyddai'n prynu llai o seidr neu'n rhoi'r gorau i brynu seidr wrth gyflwyno'r CDE, i ba fath o ddioid y byddent yn newid




Sylfaen: 92 a 111 C38 a C54 Wrth gyflwyno Cynllun Dychwelyd Ernes ar ernes o xxc, roeddech wedi dweud y bydddech yn prynu llai o seidr neu'n rhoi'r gorau i'w brynu'n gyfan gwbl. Beth, os rhywbeth, rydych yn credu y bydddech yn fwyaf tebygol o'i brynu yn ei le?

8.15 Mae Ffigur 8.8 yn dangos, am y rheini a nododd y byddent yn prynu llai o seidr neu'n rhoi'r gorau i brynu seidr yn gyfan gwbl, fod tua chwarter ohonynt wedi dweud y byddent yn newid (yn rhannol neu'n gyfan gwbl) i fathau o alcohol â lefel alcohol uwch mewn pecyn sengl (gwirodydd, gwin, gwirodlynnau neu win cadarn). Er bod y ddwy sylfaen yn gymharol fach (92 a 111 yn y drefn honno), mae'r ymchwili yn awgrymu, am y rheini a ddywedodd y byddent yn prynu llai o seidr neu'n rhoi'r gorau i'w brynu'n gyfan gwbl, y byddai 24% yn newid i fathau o ddioid â lefel alcohol uwch wrth gyflwyno CDE 20c a 31% wrth gyflwyno CDE 30c. Ar gyfer CDE 20c, mae hyn yn cyfateb i 6% o nifer cyfan y prynwyr seidr yn yr arolwg, a 9% ar gyfer CDE 30c. Darparwyd blwch testun rhydd ar gyfer ymatebwyr yr arolwg lle gallent nodi pam y byddent yn newid. O'r rhesymau a roddwyd, roedd yn ymddangos bod y

rhain yn ymwneud yn bennaf â fforddiadwyedd, fel y mae Ffigur 8.10 yn dangos. Nid oedd gwahaniaethau o arwyddocâd ystadegol ar gyfer yfwyr a niweidir neu yfwyr mewn perygl o ran y bwriad i newid (o seidr) i brynu gwirodydd, gwin, gwirodlynnau neu win cadarn ar lefel yr holl yfwyr, er bod gwahaniaeth arwyddocaol ar gyfer CDE 30c rhwng cyfranogwyr yr arolwg sydd ar incwm isel ac sydd hefyd yn yfwyr a niweidir neu'n yfwyr mewn perygl o gymharu ag yfwyr cymedrol ar unrhyw lefel incwm. Fel y mae Ffigur 8.9 yn dangos, ar lefel ernes o 30c roedd yfwyr seidr 18-34 oed yn yr arolwg hefyd yn fwy tebygol o gredu y byddent yn newid i fath o alcohol cryfach mewn fformat sengl yn lle seidr (yn rhannol neu'n gyfan gwbl), sef 14% o rai 18–34 blwydd oed o gymharu â 7% o rai 35–54 blwydd oed (gwahaniaeth o arwyddocâd ystadegol). Roedd hyn yn wir hefyd am yfwyr seidr benywaidd o gymharu ag yfwyr seidr gwrywaidd yn y sampl (14% o gymharu â 4%, gwahaniaeth o arwyddocâd ystadegol).

Ffigur 8.9 Y gyfran o'r holl brynwyr seidr yn yr arolwg a gredai y byddent yn newid o seidr i fathau o alcohol cryfder uchel mewn fformat sengl (gwin, gwirodydd, gwirodlynnau neu win cadarn) wrth gyflwyno CDE



Sylfaen: Ailsylfaenu ar y sampl graidd, Yr holl brynwyr seidr (381), Gwrywod (202), Benywod (176), 18-34 (135), 35-54 (115), 55+ (131), Yfwyr a niweidir yn cynnwys ychwanegiad (96), Yfwyr mewn perygl yn cynnwys ychwanegiad (146), Yfwyr cymedrol (196), Yfwyr ar incwm isel ac Yfwyr mewn perygl neu Yfwyr a niweidir yn cynnwys ychwanegiad (107)

8.16 O'r rheini a nododd y byddent yn prynu llai o seidr neu'n rhoi'r gorau i'w brynu'n gyfan gwbl, roedd 18% (CDE 20c) a 10% (CDE 30c) yn ychwanegol yn ansicr beth

fyddent yn ei wneud (a fyddent yn newid i fath gwahanol o alcohol, yn prynu math o ddiodyd ysgafn yn ei le neu'n prynu dim yn ei le). Felly mae'n bosibl y byddai cyfran o'r rhain hefyd yn gallu newid i brynu diodydd cryfach mewn fformat sengl.

Ffigur 8.10 Enghreifftiau o resymau dros newid o brynu seidr i brynu gwirodydd, gwin, gwirodlynnau neu win cadarn wrth gyflwyno CDE. Ymatebion testun rhydd yn yr arolwg.

Yfwyr mewn perygl ac Yfwyr a niweidir

'Mae 20c y botel yn iawn ond mae 20c am bob can yn adio i wneud swm mawr' (ac incwm isel)

'Achos byddwn i'n colli llai o arian os nad oeddwn i'n gallu dychwelyd y botel'

'Er nad yw £1.30 yn ychwanegol am ddim ond 4 can yn werth yr ychydig alcohol, mae dim ond 30c am wirodydd yn fwy fforddiadwy o lawer' (ac incwm isel)

'Mae'r ernes yn ganran lai o'r pris'

Detholiad o ymatebion testun rhydd i gwestiynau C39 a C55 Allwch chi ddweud wrthym pam rydych yn credu y byddech yn prynuyn hytrach na seidr, wrth gyflwyno Cynllun Dychwelyd Ernes xxx?

Gwin

- 8.17 Yn sampl graidd yr arolwg (yr holl yfwyr), dywedodd 59% eu bod wedi yfed gwin yn y 12 mis blaenorol. O'r rheini a ymatebodd i'r arolwg, roedd 43% yn yfed gwin o leiaf unwaith y mis (fel y mae Ffigur 5.2 yn dangos), ac oedolion hŷn (55 oed neu'n hŷn) oedd yn fwyaf tebygol o wneud hynny (52% o gymharu â 37% o rai 18-34 blwydd oed a 36% o rai 35-54 blwydd oed). Roedd yfwyr a niweidir ac yfwyr mewn perygl hefyd yn fwy tebygol o yfed gwin yn rheolaidd, gan fod 64% a 57% yn y drefn honno wedi dweud eu bod yn yfed gwin o leiaf unwaith y mis o gymharu â 33% o yfwyr cymedrol (ac roedd 57% a 43% yn yfed gwin o leiaf unwaith yr wythnos o gymharu ag 16% o yfwyr cymedrol). Er bod tuedd is ymysg yfwyr ar incwm is yn gyffredinol i yfed gwin o leiaf unwaith y mis (39%), roedd 54% o yfwyr a niweidir ac yfwyr mewn perygl ar incwm is yn gwneud hynny.
- 8.18 Yn sampl yr arolwg, roedd naw ym mhob deg (91%) o yfwyr gwin yn prynu poteli sengl 75cl (gweler Tabl 8.2), tra oedd poteli llai/caniau (tua 18.7cl – 20cl) a blychau yn llawer llai cyffredin (10% a 5%, yn y drefn honno). Byddai gwin mewn blwch yn esempt rhag y CDE, ac ar gyfer poteli llai byddai ernes y CDE yn gyfran fwy o

gyfanswm y pris yn y man prynu o gymharu â photel safonol (75cl). Roedd tuedd ychydig yn fwy ymysg yfwyr a niweidir i brynu blychau gwin (11% o gymharu â 3% o yfwyr cymedrol), ac roedd y rheini sy'n 18-34 oed yn fwy tebygol o lawer o brynu poteli bach a chaniau (19% o gymharu â 4% o'r rheini sy'n 55 oed neu'n hŷn).

Tabl 8.2 Cyfrannau'r prynwyr gwin yn yr arolwg sy'n prynu gwahanol fformatiau o becyn gwin

	Yr holl brynwyr gwin	Gwrywod	Benywod	18-34	35-54	55+	Yfwyr a niweidir	Yfwyr mewn perygl	Yfwyr cymedrol	Incwm isel ac Yfwyr mewn perygl neu Yfwyr a niweidir
Poteli safonol (75cl)	91%	92%	91%	84%	90%	95%	83%	88%	94%	88%
Poteli bach neu ganiau (18.7cl – 20cl)	10%	7%	12%	19%	13%	4%	16%	11%	8%	13%
Blychau (2.25 litr)	5%	5%	5%	3%	6%	6%	11%	5%	3%	4%

Sylfaen: Prynwyr gwin (511), Gwrywod (225), Benywod (285), 18-34 (122), 35-54 (139), 55+ (250), Yfwyr a niweidir yn cynnwys ychwanegiad (132), Yfwyr mewn perygl yn cynnwys ychwanegiad (189), Yfwyr cymedrol (263), Yfwyr ar incwm isel ac Yfwyr mewn perygl neu Yfwyr a niweidir yn cynnwys ychwanegiad (120)


8.19 Wrth gyflwyno CDE 20c, dywedodd 95% o yfwyr gwin yn yr arolwg y byddent yn parhau i brynu gwin, gyda chyfran debyg (94%) os mai 30c oedd lefel yr ernes. O'r rheini a fyddai'n parhau i brynu gwin, byddai 88% yn parhau i brynu poteli gwin safonol yn achos CDE 20c a 85% yn achos CDE 30c. Nid oedd gwahaniaethau o arwyddocâd ystadegol mewn ymddygiad bwriadedig ymysg yfwyr mewn perygl neu yfwyr a niweidir nac ymysg cyfranogwyr incwm is o gymharu â'r sampl gyfan. Am fod lefel pryniannau poteli bach a chaniau yn isel, ni ellir adrodd ar ymddygiad bwriadedig mewn perthynas â'r fformat hwn. Er bod meintiau'r sylfeini yn isel iawn, fel bod rhaid wrth gryn ofal wrth ddehongli, mae'r duedd yn y data yn awgrymu y byddai rhai o blith yr yfwyr gwin sy'n prynu poteli 75cl yn gallu newid i brynu blychau gwin. O'r 54 yn sampl yr arolwg (wrth holi am lefel ernes o 20c) a ddywedodd y byddent yn prynu math o becyn sy'n wahanol i boteli gwin 75cl, roedd 30 yn credu y byddent yn newid i brynu blychau gwin yn lle hynny³² (roedd y rhan fwyaf o'r lleill heb benderfynu, sef 18 o ymatebwyr). Ar gyfer lefel ernes o 30c, mae'r ffigurau'n

³² Cwestiynau C40 a C56

debyg: roedd 34 o'r 67 yn credu y byddent yn newid i brynu blychau gwin ac roedd 25 heb benderfynu.

- 8.20 O ran y bwriad i ailgylchu poteli, ar gyfer gwin mae'n ymddangos eto nad oes gwahaniaeth o arwyddocâd ystadegol pa un a yw'r ernes yn 20c neu'n 30c. O'r rheini a ddywedodd y byddent yn parhau i brynu gwin, a photeli gwin safonol, ar gyfartaledd byddai 63% bob amser yn dychwelyd cynwysyddion drwy'r CDE ar lefel ernes o 20c a 64% ar lefel ernes o 30c (gweler Ffigur 8.11). Fel y gwelwyd yn achos mathau eraill o alcohol, roedd lefel y duedd o ran dychwelyd cynwysyddion drwy'r CDE yn is i raddau ystadegol arwyddocaol ymysg y rheini sy'n 18-34 oed, gan fod 49% yn bwriadu gwneud hynny o dan CDE 20c o gymharu â 72% o ymatebwyr 55 mlwydd oed a hŷn. Er bod y gwahaniaeth o arwyddocâd ystadegol, mae angen rhywfaint o ofal wrth ystyried y sampl 18-34 oed am fod y nifer yn y sylfaen yn isel (81). Nid oes gwahaniaethau o arwyddocâd ystadegol yn y duedd o ran dychwelyd cynwysyddion drwy'r CDE yn ôl lefel yr yfed neu gyfoeth.

Ffigur 8.11 Bwriad yfwyr gwin i ddychwelyd poteli gwin 75cl bob amser lle byddent yn parhau i'w brynu yn yr un fformat




Sylfaen: Yfwyr gwin sy'n prynu poteli 75cl ac a fyddai'n parhau i wneud hynny wrth gyflwyno'r CDE. Cyfanswm o dan CDE 20c/30c 387/370, Gwrywod (174/166), Benywod (212/203), 18-34 (81/75), 35-54 (103/101), 55+ (203/194), Yfwyr a niweidir yn cynnwys ychwanegiad (91/91, Yfwyr mewn perygl yn cynnwys ychwanegiad (130/123), Yfwyr cymedrol (213), Yfwyr ar incwm isel ac Yfwyr mewn perygl neu Yfwyr a niweidir yn cynnwys ychwanegiad (87/85) C33 a C49. Gan feddwl am y mathau o alcohol rydych yn eu prynu oddi wrth fanwerthwyr a'r mathau o becyn rydych yn ei brynu ynddynt, pa opsiwn sy'n rhoi'r disgrifiad agosaf o beth fydddech yn ei wneud wrth gyflwyno Cynllun Dychwelyd Ernes xxc?

8.21 Roedd oddeutu un ym mhob deg (12%) o yfwyr gwin yn credu y byddent yn prynu llai o win o dan CDE 20c, a'r ffigur hwnnw'n codi ychydig i 15% ar lefel ernes o 30c³³. Roedd 5% a 6% pellach, ar gyfer 20c a 30c yn y drefn honno, yn credu y byddent yn rhoi'r gorau i'w brynu'n gyfan gwbl. Nid oedd gwahaniaethau o arwyddocâd ystadegol yn ôl lefel yr yfed, cyfoeth neu oed. O ran tuedd, o'r rheini a gredai y byddent yn prynu llai o win neu'n rhoi'r gorau i'w brynu (46% ar gyfer CDE 20c a 53% ar gyfer CDE 30c) (er bod angen rhywfaint o ofal wrth ystyried hyn gan fod meintiau'r sylfeini yn gymharol isel am mai nifer bach o yfwyr gwin a fyddai'n rhoi'r gorau i'w brynu neu'n prynu llai ohono). Fel y mae Ffigur 8.12 yn dangos, roedd tua un ym mhob deg (11%) yn credu y byddent yn newid i brynu gwirodydd (ar 20c a 30c) ond mae hyn yn cyfateb i 2% o yfwyr gwin yn y sampl gyfan.

³³ Cwestiwn C40X a C56X

Ffigur 8.12 O'r yfwyr gwin a fyddai'n prynu llai o win neu'n rhoi'r gorau i brynu gwin wrth gyflwyno'r CDE, i ba fath o ddiod y byddent yn newid




Sylfaen: Yfwyr gwin a fyddai'n prynu llai o win neu'n rhoi'r gorau i brynu gwin wrth gyflwyno'r CDE 20c (85) 30c (103) C41 neu C57 Wrth gyflwyno Cynllun Dychwelyd Ernes ar lefel o xxc, roeddech wedi dweud y bydddech yn prynu llai o win neu'n rhoi'r gorau i'w brynu'n gyfan gwbl. Beth, os rhywbeth, rydych yn credu eich bod yn fwyaf tebygol o'i brynu yn ei le?

Gwirodydd, Gwirodlynnau a Gwin Cadarn

- 8.22 Yn y sampl gyfan, roedd 59% wedi yfed gwirodydd yn y 12 mis diwethaf, ac roedd 43% yn yfed gwirodydd o leiaf unwaith y mis. Roedd gwirodlynnau a gwinoedd cadarn yn cael eu hyfed yn llai aml o lawer, sef gan 9% a 5% unwaith y mis yn y drefn honno, fel y mae Tabl 5.2 yn dangos.
- 8.23 Y fformat mwyaf poblogaidd yn y sampl ar gyfer gwirodydd, gwirodlynnau a gwin cadarn oedd poteli 70cl, gan fod 62% yn prynu poteli o'r maint hwn. Fodd bynnag, mae yfwyr a niweidir yn fwy tebygol i raddau ystadegol arwyddocaol nag yfwyr cymedrol o brynu poteli llai (gweler Ffigur 8.13). Un ddamcaniaeth yw bod yfwyr a niweidir, wrth brynu gwirodydd, gwirodlynnau neu winoedd cadarn yn fwy aml nag yfwyr cymedrol, yn dewis prynu llai ond prynu'n fwy aml oherwydd fforddiadwyedd, ond byddai angen rhagor o ymchwil i gael tystiolaeth o hynny. Roedd tua hanner (53%) yr yfwyr a niweidir wedi dweud eu bod yn prynu gwirodydd o leiaf ddwywaith neu dair bob mis.

Ffigur 8.13 Mathau o botel a brynir fel arfer ar gyfer gwirodydd, gwirodlynnau neu winoedd cadarn



Sylfaen: Yfwyr a niweidir yn cynnwys ychwanegiad (135), Yfwyr mewn perygl yn cynnwys ychwanegiad (188), Yfwyr cymedrol yn cynnwys ychwanegiad (256), Yfwyr ar incwm isel ac Yfwyr a niweidir neu Yfwyr mewn perygl (127) C22 Gan feddwl am y mathau canlynol o alcohol rydych yn eu prynu oddi wrth fanwerthwyr, ym mha fathau o becyn y byddwch yn prynu'r rhain fel arfer?

8.24 Wrth gyflwyno CDE 20c neu 30c, byddai 95% o yfwyr gwirodydd, gwirodlynnau neu winoedd cadarn yn parhau i brynu'r mathau hyn o ddiod. Ni chafwyd dim tystiolaeth o'r gwaith ymchwil y byddai yfwyr a niweidir yn fwy tebygol o newid i brynu poteli mwy wrth gyflwyno CDE. O ran y bwriad i ailgylchu, o'r rheini a fyddai'n parhau i brynu poteli 70cl, roedd 53% yn credu y byddent bob amser yn ailgylchu'r rhain drwy'r CDE.

9. Casgliadau

- 9.1 Nod craidd yr ymchwil oedd deall i ba raddau y byddai cyflwyno Cynllun Dychwelyd Ernes (CDE) yn gallu effeithio ar ymddygiadau prynu alcohol yng Nghymru ac, yn benodol, sut y gallai effeithio ar nodau deddfwriaeth yr Isafbris am Alcohol. Mae'r cwestiwn olaf hwn yn ymwneud â'r risg ddichonol y byddai mathau o alcohol llai cryf mewn aml-becynnau (cwrw a seidr) yn cael eu gweld yn rhai sy'n cynnig llai o werth na mathau alcohol cryfach mewn fformat sengl (fel gwin, gwirodydd, gwirodlynnau neu winoedd cadarn) wrth gymhwyso'r CDE at bob cynhwysydd. Dau grŵp y nodwyd fel rhai a allai wynebu'r risg fwyaf o newid ymddygiadau prynu alcohol o ganlyniad i gyflwyno CDE oedd yfwyr a niweidir ac yfwyr mewn perygl, a phobl sydd ar incwm is.
- 9.2 Mae'r ymchwil yn awgrymu y byddai lleiafrif o ddefnyddwyr sy'n prynu cwrw neu seidr yn gallu newid i brynu mathau o alcohol cryfach (yn rhannol neu'n llwyr) wrth gyflwyno CDE, gyda llai na 10% o yfwyr cwrw neu seidr yn yr ymchwil feintiol yn nodi y byddent yn gwneud hynny. Roedd hyn yn wir hefyd am yfwyr a niweidir ac yfwyr mewn perygl, ac am y rheini ar incwm is yng nghyd-destun yr holl yfwyr. Er hynny, roedd y ffigur ychydig yn uwch ar gyfer prynwyr seidr a oedd yn yfwyr a niweidir neu'n yfwyr mewn perygl a hefyd ar incwm is yn achos CDE 30c.
- 9.3 Mae'r ymchwil yn awgrymu bod nifer o resymau allweddol dros hyn:
- Mae mathau o ddiod alcoholaidd yn cael eu cysylltu ag achlysuron penodol (e.e., yfed cwrw wrth wyllo gêm bêl-droed neu yfed gwin gyda phryd o fwyd). Byddai newid mathau o alcohol ar gyfer achlysuron sydd â chysylltiadau cryf â nhw yn galw am newid normau presennol (ffynhonnell: ymchwil ansoddol).
 - Dangosodd yr ymchwil fod y rhan fwyaf o yfwyr yn dewis o blith nifer cymharol fach o fathau o alcohol i'w hyfed yn rheolaidd a bod gan 80% ohonynt hoff fath o ddiod alcoholaidd y maent yn ei hyfed yn amlach na'i gilydd, fel y byddai newid i fath gwahanol wrth gyflwyno'r CDE yn galw eto am newid ychwanegol mewn arferion. Roedd yr ymchwil ansoddol hefyd yn dangos bod ymlyniad emosiynol cryf wrth hoff fathau o ddiod. Roedd

graddau'r hoffter o un math o ddiod yn fwy ymysg yfwyr a niweidir nag ymhlith yfwyr cymedrol (ffynhonnell: ymchwil ansoddol ac ymchwil feintiol).

- Wrth siopa am alcohol, yr ymddygiad a geir gan amlaf ar hyn o bryd yw siopa o fewn mathau o alcohol yn hytrach na rhyngddynt (ffynhonnell: ymchwil ansoddol).

9.4 Ategir y casgliad hwn gan y ffaith nad oes tystiolaeth o effeithiau anfwriadol sylweddol mewn perthynas ag yfed alcohol, er bod nifer o CDEau ar waith o gwmpas y byd. Yn gyffredinol, mae astudiaethau'n dangos na ddylai CDE gael effaith ar ymddygiad defnyddwyr, os yw wedi'i gynllunio'n dda, gan fod ernesau'n ad-daladwy. Os yw defnyddwyr yn gallu cymryd rhan yn llawn yn y cynllun a hawlio eu hernes yn ôl yn rhwydd, yna mae'n llai tebygol y bydd canlyniadau anfwriadol o ganlyniad i weithredu CDE. Gan fod y dull o weithredu'n bwysig, bydd yn bwysig monitro a gwerthuso'r CDE yn barhaus gan roi sylw i'r broses (gweithredu) a'r canlyniad (yn ogystal â pharhau i gasglu tystiolaeth o gynlluniau mewn mannau eraill).

9.5 Fodd bynnag, mae'r ymchwil wedi dangos bod rhai meysydd a fydd o gymorth i hwyluso'r gallu i ddychwelyd cynwysyddion ac felly lleihau'r risg o gael newidiadau negyddol mewn arferion prynu.

- Roedd yfwyr a niweidir yn benodol wedi mynegi pryder y gallai pobl eu beirniadu ar sail nifer y cynwysyddion diodydd a ddychwelir. Roedd oddeutu dau ym mhob pump (43%) o yfwyr a niweidir a 35% o yfwyr mewn perygl yn cytuno â'r datganiad 'Byddwn yn poeni y byddai pobl eraill yn fy meirniadu ar sail nifer neu fathau'r cynwysyddion alcohol y gallwn eu dychwelyd'. Drwy ddarparu peiriannau a oedd yn cynnig modd i adael cynwysyddion yn ddisylw, gellid cymell y grŵp hwn i ddychwelyd cynwysyddion.
- Roedd mwy o blaid dychwelyd arian parod nag a oedd o blaid dychwelyd talebau, yn rhannol oherwydd pryder am dalebau'n mynd ar goll neu'n mynd heibio i ddyddiad dod i ben, er enghraifft. Felly, mae'n bosibl y byddai talebau digidol yn helpu rhai i deimlo'n fwy hyderus na fyddai arian yn cael ei golli'n ddamweiniol.

- Roedd yr angen i neilltuo amser i ddychwelyd cynwysyddion yn cael ei ystyried yn rhwystr, yn enwedig ymysg oedolion sydd â phlant a'r rheini sy'n 18-34 blwydd oed. Byddai cyfathrebu ynghylch y gallu i ddychwelyd cynwysyddion yn rhwydd ac yn gyflym, ynghyd â nifer helaeth o fannau dychwelyd (fel na fydd pobl yn teimlo bod angen iddynt fynd o'u ffordd) yn gallu lleddfu'r pryder hwn. Hefyd bydd sicrhau bod y manau dychwelyd yn weithredol yn ystyriaeth bwysig.
- Roedd cydberthynas glir rhwng y rheini a oedd â barn negyddol am y CDE a'r rheini a oedd â chwestiynau heb eu hateb am y cynllun, a hynny'n awgrymu y bydd yn bwysig cael cyfathrebu clir a chynhwysfawr er mwyn cymell yfwyr i deimlo'n gadarnhaol am y cynllun.
- Roedd nifer a lleoliad y manau dychwelyd yn un o'r prif bryderon ymysg cyfranogwyr yn yr ymchwil ansoddol a'r ymchwil feintiol, a hynny'n amlygu pwysigrwydd lleoliad y manau dychwelyd o ran hwyluso'r gallu i ddychwelyd cynwysyddion. Bydd yn neilltuo o bwysig cael manau dychwelyd gweithredol mewn llawer man mewn lleoliadau y tu allan i'r cartref lle yfir alcohol a brynwyd oddi wrth fanwerthwyr, gan fod cyfraddau ailgylchu y tu allan i'r cartref yn is o lawer ar hyn o bryd. Yn ogystal â hyn, roedd yr angen i gario cynwysyddion diodydd gwag, budr oddi allan i'r cartref hefyd wedi cael ei nodi'n rhwystr allweddol mewn perthynas â dychwelyd cynwysyddion.

9.6 Er mai prif bwrpas yr ymchwil oedd tynnu sylw at unrhyw ganlyniadau anfwriadol o ran ymddygiad prynu alcohol ymysg yfwyr mewn perygl ac yfwyr a niweidir, neu'r rheini sydd ar incwm isel, roedd yr ymchwil wedi dangos bod grŵp arall y gallai fod yn berthnasol ei fonitro ar ôl rhoi'r CDE ar waith. Yn yr ymchwil ansoddol a'r ymchwil feintiol, roedd yn glir mai ymysg rhai 18–34 blwydd oed y mae'r duedd isaf i ailgylchu ar hyn o bryd ac mai ymhlith y rhain hefyd yr oedd y bwriad lleiaf i ddychwelyd cynwysyddion drwy'r CDE. Roedd hyn yn neilltuo o wir lle'r oedd alcohol a brynwyd oddi wrth fanwerthwyr yn cael ei yfed y tu allan i'r cartref. Ar hyn o bryd, dim ond 30% o gyfranogwyr 18-34 oed sy'n dweud eu bod bob amser yn dod â chynwysyddion diodydd gwag adref i'w hailgylchu ar ôl yfed y tu allan i'r

cartref o gymharu â 51% o'r rheini sy'n hŷn na 55 oed³⁴. Ar gyfartaledd, mewn perthynas â phrynu cwrw yn yr holl fathau o aml-becynnau, wrth gyflwyno CDE 20c dywedodd 60% o rai 18–34 blwydd oed y byddent bob amser yn dychwelyd cynwysyddion o aml-becynnau o gymharu â 70% o'r rheini sy'n 55 oed neu'n hŷn. Os na fydd ernesau'n cael eu hawlio'n ôl, gellid cael mwy o risg ddichonol o newid o fathau alcohol llai cryf mewn aml-becynnau i ddiodydd cryfach.

³⁴ Ffigur 6.1

10. Argymhellion ar gyfer ymchwil yn y dyfodol

- 10.1 Mae'r canfyddiadau yn yr adroddiad hwn yn darparu tystiolaeth am y ffordd y gallai yfwyr ymddwyn yng nghyd-destun ymddygiadau prynu alcohol wrth gyflwyno Cynllun Dychwelyd Ernes. Fodd bynnag, mae'n bosibl y bydd angen monitro ymddygiadau gwirioneddol ar ôl ei weithredu. Mae ein hargymhelliad ar gyfer y modd i gyflawni hyn wedi'i amlinellu isod ac mae'n awgrymu defnyddio dulliau cymysg a fydd yn cynnwys data am gategoriâu ac ymchwil feintiol ychwanegol.
- 10.2 O ran amseru, credwn y bydd yn bwysig gadael i ddefnyddwyr ymaddasu i'r cynllun newydd cyn dechrau unrhyw werthuso. Yn ogystal â hyn, ar sail ein hargymhelliad i ddefnyddio data am gategoriâu yn rhannol ar gyfer monitro, byddai'n fanteisiol cael data ar gyfer blwyddyn gyfan o leiaf er mwyn gallu dod i gasgliadau dibynadwy.

Data am gategoriâu

- 10.3 Er mwyn deall i ba raddau y mae defnyddwyr yn newid (os o gwbl) o fathau alcohol llai cryf (cwrw a seidr) mewn aml-becynnau i fathau o alcohol cryfach (gwirodydd, gwin, gwirodlynnau, gwinoedd cadarn) mewn fformatiau sengl, rydym yn argymhell y dylai Llywodraeth Cymru brynu rhai data am gategoriâu. Mae nifer o ffyrdd posibl i gyflawni hyn.
- Gellid edrych ar hyn yn fanwl drwy brynu data gwerthiant ar lefel cyfrifon (lefel y manwerthwr) ar gyfer mathau allweddol o alcohol gan gynnwys, efallai, dwy archfarchnad ac un manwerthwr mewn siop gyfleustra. Drwy wneud hyn, gellid dadansoddi gwerthiant pob manwerthwr ar wahân i weld beth sy'n digwydd i werthiant sylfaenol alcohol ar ôl cymryd hyrwyddo ar lefel y manwerthwr i ystyriaeth. Byddai gweithredu fel hyn hefyd yn rhoi'r gallu i ddadansoddi gwerthiant mathau o becynnau er mwyn cael gwybod a yw prynwyr yn newid i brynu cynwysyddion mwy. Yr her a allai godi wrth weithredu fel hyn fyddai'r angen i wynebu'r gost a chael y caniatâd angenrheidiol ar gyfer cyhoeddi gan berchnogion y data.

- Dull arall o weithredu fyddai dadansoddi'r holl ddata am categorïau ar gyfer pob math o alcohol er mwyn cael gwybod am newidiadau yn niferoedd y gwerthiant, y newid rhwng mathau o alcohol a fformatiau.
- Prynu data am gardiau teyrngarwch manwerthwyr. Bydd hyn yn rhoi'r gallu i ddadansoddi rhyngweithio rhwng cynhyrchion, newid rhwng mathau o alcohol, y rheini sy'n dechrau neu'n gorffen prynu mewn gwahanol categorïau a'r mathau o ymddygiad mewn gwahanol segmentau o brynwyr manwerthu. Unwaith eto, gellid wynebu heriau wrth sicrhau caniatâd i gyhoeddi'r data hyn.

Ochr yn ochr â'r data am categorïau, ceir data perthnasol hefyd drwy barhau i fonitro'r effeithiau o weithredu Cynlluniau Dychwelyd Ernes mewn gwledydd eraill ar ymddygiadau yfed, a hefyd i ddeall yr arferion gorau ar gyfer gweithredu.

Ymchwil ymhlith yfwyr

- 10.4 Er y bydd data am categorïau yn darparu gwybodaeth werthfawr am yr hyn sy'n digwydd ar lefel y farchnad gyfan yng Nghymru, ni fyddant yn cynnig mewnwelediadau i ymddygiad y rheini y mae deddfwriaeth yr Isafbris am Alcohol yn eu targedu'n benodol, h.y., yfwyr mewn perygl ac yfwyr a niweidir, neu'r rheini y byddai ychwanegiad i'r pris manwerthu yn gallu bod yn fwy o her iddynt, h.y., defnyddwyr ar incwm is. Felly, er mwyn ategu'r data am categorïau, rydym yn argymhell y dylai Llywodraeth Cymru ymgymryd ag ymchwil ansoddol a meintiol ddilynol ymysg yfwyr, yn cynnwys ymchwil ansoddol gychwynnol i ddeall y profiad o weithredu'r cynllun o safbwynt y defnyddwyr. Rydym yn argymhell y dylid cynnwys y canlynol yn y sampl unwaith eto: gwahanol fathau o yfwyr (yfwyr cymedrol, yfwyr mewn perygl ac yfwyr a niweidir), gwahanol lefelau incwm, oed a rhywedd, a lleoliad (e.e. gwledig neu drefol). Ar gyfer yr ymchwil feintiol, rydym yn argymhell defnyddio'r un strwythur sampl ag a ddefnyddiwyd yn yr ymchwil hon cyn cyflwyno'r cynllun, sef sampl graidd o yfwyr alcohol yng Nghymru, ynghyd ag ychwanegiadau ar gyfer yfwyr a niweidir, yfwyr mewn perygl, yfwyr ar incwm is, ac yfwyr ar incwm is ac yfwyr a niweidir ac yfwyr mewn perygl er mwyn sicrhau bod modd dadansoddi'r grwpiau hyn ar wahân i'w gilydd. Byddai'r ymchwil yn canolbwyntio ar eu profiadau

o'r CDE fel yfwyr alcohol, ac a oeddent wedi gwneud unrhyw newidiadau o ran beth maent yn ei brynu a'i yfed o ganlyniad, a'r rhesymau dros hynny. Byddai'n bwysig cael dealltwriaeth o hyn gan edrych ar wahân ar alcohol a brynwyd oddi wrth fanwerthwyr i'w yfed y tu allan i'r cartref a hwnnw a brynwyd i'w yfed yn y cartref, oherwydd y gwahaniaethau presennol rhwng y cyfraddau ailgylchu yn y lleoliadau hyn. Bydd yn bwysig hefyd fod yr ymchwiler yn rhoi sylw i ymddygiadau rhai 18–34 blwydd oed, gan mai'r grŵp hwn oedd yr un lle nodwyd y bwriad dichonol isaf i gymryd rhan yn y CDE. Felly, gellid ystyried cynnwys ychwanegiad yn y sampl ar gyfer y grŵp oedran hwn.

Ymchwiler ymhlith gweithredwyr y cynllun

- 10.5 Er mwyn ategu ymchwiler ymhlith defnyddwyr, gellid ystyried cynnal ymchwiler ansoddol hefyd ymhlith gweithredwyr y cynllun (e.e. manwerthwyr), er mwyn canfod a oes unrhyw anawsterau wrth ei weithredu o'u safbwynt nhw.

11. Cyfeiriadau

Llywodraeth Cymru (2021), Mwy nag ailgylchu – Ein cynllun i wneud yr economi gylchol yng Nghymru yn realiti. Ar gael yn: [Datganiad Ysgrifenedig: Y diweddaraf am ddatblygu Cynllun Dychwelyd Ernes \(25 Ebrill 2024\) | LLYW.CYMRU](#).

[Deddf Iechyd y Cyhoedd \(Isafbris am Alcohol\) 2018](#) (2018). Y Ddeddf gyfan.

[Alcohol Change UK \(2021\), Alcohol Change UK submission to the Deposit Return Scheme consultation](#).

[Llywodraeth Cymru, Arolwg Cenedlaethol Cymru \(2024\), Dangosydd canlyniadau: arolwg blwyddyn lawn](#).

Michie, S., M van Stralen, M. a West, R. (2011). '[The behaviour change wheel: A new method for characterising and designing behaviour change interventions.](#)' [Implementation Science](#). 6 (42).

[Ofcom \(2022\), Digital exclusion research](#).

[Institute of Alcohol Studies, Alcohol Knowledge Centre Briefing \(2020\), Measure for measure; calculating alcohol consumption](#).

[Llywodraeth Cymru, Arolwg Cenedlaethol Cymru \(2023\), Holiaduron](#).

[Reloop \(2024\), Public support for deposit return systems](#).

Fitzpatrick, A et al., Kantar, [Llywodraeth Cymru \(2019\), Ymchwil gyda defnyddwyr i arwain y gwaith o lunio cynllun dychwelyd ernes effeithiol](#).

[Reloop \(2024\), Deposit return systems: How they perform](#).

Stunell, A et al., [Eunomia \(2021\), Deposit Return in the Netherlands: An assessment of the Afvalfonds proposal for beverage can collection in the public domain](#).

Kükenthal, V. C.(2023), '[Optimising Recycling Policy in the UK: The UK's Deposit Return Scheme](#)'. [Cambridge Journal of Science and Policy](#). 4.

[Reloop \(2023\), The impact of deposit return systems on beverage sales](#).

Mitchell, M. et al., [Llywodraeth Cymru \(2023\), Isafbris am alcohol: effaith ar fanwerthwyr \(adroddiad interim ar Ymchwil gyda manwerthwyr a dadansoddi meintiol\)](#)

[Alupro, London Economics \(2020\), Deposit Return Scheme.](#)

Lee, P et al (2019). [Recycling DRS in Scotland \(British Glass\).](#)

Cartwright, T., [Llywodraeth Cymru \(2023\), Agweddau'r cyhoedd at isafbris am alcohol yng Nghymru ac ymwybyddiaeth ohono 2018 – 2022.](#)

Atodiad A Canllaw ar gyfer Cynnal Cyfweiliadau Manwl

Cyflwyniad 3 munud (3)

Cyflwyniad

Diolch i'r cyfranogwr am gymryd rhan.

Cyflwyno'r cymedrolwr a Levercliff (asiantaeth ymchwil annibynnol).

Mae'r ymchwil yn cael ei chynnal ar ran Llywodraeth Cymru i edrych ar yr effaith o gyflwyno Cynllun Dychwelyd Ernes (CDE) ar ymddygiadau prynu alcohol.

Bydd y cyfweiliad yn para tua awr.

Eglurwch fod y ffaith bod Levercliff yn asiantaeth annibynnol yn golygu y dylai fod yn rhydd i fynegi barn. Mae'r ymchwil yn gyfrinachol a dienw – ni fydd eich manylion personol yn cael eu rhannu ac, er y bydd adroddiad yn cael ei gyhoeddi, ni fydd neb yn cael ei enwi ynddo.

Mae'r ymchwil yn wirfoddol – gallwch roi'r gorau i gymryd rhan ar unrhyw adeg. Bydd y wybodaeth yn cael ei defnyddio i ddibenion ymchwil yn unig.

Does dim atebion cywir neu anghywir. Rydyn ni'n ymddiried ynoch chi i fod yn agored ac yn onest.

Recordio

Gofynnwch i'r cyfranogwr am ganiatâd i recordio. Wedi i mi wrando ar y recordiad, bydd yn cael ei ddileu.

- Unrhyw gwestiynau?

Torri'r ias 4 munud (7)

(Nod: Torri'r ias a chael trosolwg bras iawn ar ba alcohol sy'n cael ei brynu (bydd yn cael ei drafod yn fwy manwl yn rhan 5)

Cyflwyno'r cyfranogwr

- Enw, os yw'n gweithio, beth yw ei waith, a oes rhywun arall ar yr aelwyd.
- Ble fyddwch chi'n siopa am nwyddau groser fel arfer a ble fyddwch chi'n siopa am ddiodydd alcoholaidd, a pham?

Pa fathau o ddiodydd alcoholaidd rydych chi'n eu prynu a'u hyfed ar hyn o bryd?

Sut byddwch chi'n penderfynu beth i'w brynu? (Brand, ABV, pris y pecyn, cynigion arbennig, faint o arian sydd gennych chi ar y pryd)

Cyllidebau a Materion Ariannol 5 munud (12)

(Nod: Deall y dylanwad posibl o gyllidebau, e.e. y gallu i aros cyn dychwelyd swm yr ernes a/neu yr angen i ddychwelyd yr ernes)

Gyda chwyddiant, mae llawer o brisiau wedi codi dros y flwyddyn ddiwethaf. Sut byddwch chi'n rheoli faint rydych chi'n ei wario ar fwyd a diod

- Cyllideb gyffredinol, cyllidebau ar gyfer gwahanol feysydd, cadw at restrau siopa etc). Ble mae alcohol yn dod i mewn i hyn?

Ydych chi wedi gwneud unrhyw newidiadau o ran y mathau o ddiodydd alcoholaidd rydych chi wedi'u prynu o ganlyniad, neu'r ffordd rydych yn siopa amdanynt?

Ymwybyddiaeth o'r CDE a'i farn amdano 10 munud (22)

(Nod: Edrych ar ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o'r CDE ymysg yfwyr)

Bydd y cymedrolwr yn egluro bod Llywodraeth Cymru (ynghyd â Llywodraeth yr Alban a Llywodraeth y DU yn Lloegr) yn gweithio ar ffordd newydd i ailgylchu cynwysyddion diodydd sy'n cael ei alw'n Gynllun Dychwelyd Ernes neu DRS.

Beth rydych chi'n ei wneud gyda photeli a chaniau gwag ar hyn o bryd [y cymedrolwr i egluro bod hyn yn golygu unrhyw fath o ddiod: diodydd ysgafn neu alcoholaidd]? (Eglurwch i mi beth sy'n digwydd, ble fyddwch chi'n eu storio, sut byddwch chi'n eu gwaredu nhw?)

- Sut mae'n amrywio yn ôl y math o gynhwysydd (caniau, poteli gwydr (meintiau), poteli plastig)

- Sut mae'n amrywio yn ôl yr achlysur/sefyllfa? (Yn y cartref, y tu allan i'r cartref)
- Oes unrhyw amgylchiadau lle mae'n fwy anodd ailgylchu?
- Oes unrhyw beth sy'n achosi rhwystredigaeth neu drafferth ynghylch storio neu waredu poteli a chaniau ar hyn o bryd?

[Yn dilyn trafodaeth gyffredinol, bydd y cymedrolwr yn holi eto am bob un o'r themâu uchod er mwyn canfod unrhyw wahaniaethau rhwng poteli a chaniau alcohol gwag a diodydd ysgafn]

A oedd wedi clywed am y CDE cyn cysylltu ar gyfer yr ymchwil hon?

- Os oeddech, allwch chi ei ddisgrifio yn eich geiriau'ch hun?
- A yw wedi cael profiad o unrhyw beth tebyg (os felly, ble, sut roedd yn teimlo?)

Y cymedrolwr i ddangos trosolwg ar y CDE [sleid 1]

Beth yw'r pethau cyntaf sy'n dod i'ch meddwl?

- Sut rydych yn teimlo am gyflwyno rhywbeth fel hyn? (Pam?)
- Unrhyw gwestiynau ar y pryd?
- Unrhyw bryderon ar y pryd?

Os oedd yn cael ei gyflwyno, beth rydych yn meddwl y byddech chi'n ei wneud yn bersonol?

[Y cymedrolwr i gofnodi'r syniadau cyntaf a chyfeirio at sylwadau blaenorol].

- Pa bethau fyddai'n gallu ei wneud yn anodd i chi'n bersonol (holi am bob un o'r canlynol: casglu, cludo, cyfnewid)
- [Os yw'r cyfranogwr yn gwrthwynebu] Pan ofynnir i ni wneud rhywbeth newydd, bydd yn cymryd amser i addasu weithiau. Gan edrych tua phum mlynedd i'r dyfodol, allwch chi feddwl y byddai'n rhywbeth y byddwch yn dod i arfer ag ef? (Pam y byddai/na fyddai) – [e.e. mynd â bagiau siopa]
- Beth fyddai'n ei wneud yn fwy tebygol i chi ddychwelyd cynwysyddion (swm yr ernes, cyfleustra. etc)
- Sut rydych yn teimlo am bobl yn gweld beth rydych wedi bod yn ei yfed yn y man cyfnewid?

Sut rydych yn meddwl y bydd pobl eraill yn ymateb iddo? (Pam?) (Y tymor byr a'r tymor hwy)

- Oes yna rai pobl rydych yn meddwl y bydd yn fwy anodd iddyn nhw? Pam?

Mathau o alcohol 8 munud (30)

Nod: Cael gwybodaeth gefndir er mwyn deall y dewis presennol o ddiodydd

Byddaf yn dangos ychydig o enghreifftiau i chi wedyn am y math o ffi dychwelyd ernes a fyddai'n cael ei hychwanegu i bris cynhyrchion, ond cyn hynny rydw i am gael ychydig o wybodaeth gefndir.

Roeddech wedi sôn yn gynharach eich bod yn prynu'r mathau canlynol o alcohol fel arfer.....Allwch chi ddweud wrthyf i pam rydych yn dewis gwahanol fathau o alcohol. E.e. ydych chi'n yfed gwahanol fathau mewn gwahanol sefyllfaoedd neu achlysuron?

- Oes unrhyw fathau eraill roeddech heb sôn amdany'n nhw'n gynharach (pryd a pham rydych yn eu prynu)

Allwch chi sôn ychydig yn fwy manwl am sut rydych yn penderfynu beth i'w brynu?

- Beth sy'n cael ei benderfynu cyn mynd i'r siop neu yn y siop? Ar beth mae hyn yn dibynnu?

- Sut rydych yn penderfynu beth i'w brynu? (Pam mae hynny'n bwysig) [ABV, brand, etc]

- Senarios lle gallai newid rhwng mathau?

- Senarios lle gallai newid rhwng mathau/meintiau'r pecyn?

- Rôl a dylanwad y gyllideb sydd ar gael wrth ddewis

Pa fathau o becyn byddwch yn prynu'r rhain ynddyn nhw? (Holwch am bob math o alcohol)

- Beth mae'n ei hoffi am becyn o'r math hwn?

- Pam mae hyn yn bwysig i chi?

Sut byddwch yn penderfynu pa fath o becyn i'w brynu?

- Pris y litr/uned, achlysur, profiad

- Rheoli faint sy'n cael ei yfed?

Yr Isafbris am Alcohol 4 munud (34)

Nod: Edrych ar ymwybyddiaeth o'r Isafbris am Alcohol a'i effaith

Gallech fod yn ymwybodol bod cynllun arall wedi'i gyflwyno yng Nghymru ychydig o flynyddoedd yn ôl, sef yr isafbris uned am alcohol. Ydych chi wedi clywed am hwn?

[Os yw] Yn eich geiriau'ch hun, allwch chi egluro i mi beth yw'r cynllun hwn?

- Beth wnaethoch chi sylwi arno pan gafodd ei gyflwyno?

Cymedrolwr: O ganlyniad i gyflwyno'r isafbris uned, ni ellir gwerthu alcohol am lai na 50c yr uned. Cafodd ei gyflwyno fel un o nifer o bolisïau i helpu i fynd i'r afael â'r niwed sy'n cael ei achosi gan alcohol. Er enghraifft, yr isafbris am becyn o 4 can 440ml o lager neu seidr ag ABV o 5% fyddai £4.40. Heb yr isafbris uned, byddai'n bosibl gwerthu'r un cynnyrch am lai.

A yw'r isafbris uned am alcohol wedi cael unrhyw effaith ar y mathau o ddiodydd alcoholaidd rydych yn eu prynu neu ble rydych yn eu prynu? Allwch chi ddweud ychydig mwy wrthyf i am hynny? [Y cymedrolwr i holi am newidiadau]

Senarios CDE, Mapio ymddygiad 21 munud (55)

Nod: Edrych ar newidiadau dichonol mewn ymddygiad o ran yr hyn a brynir, ac os dewisir unrhyw gynhyrchion alcohol cryfach (o ganlyniad i'r CDE) a fyddent yn cael eu hyfed ar yr un gyfradd â chynhyrchion alcohol llai cryf.

Mae'r cymedrolwr yn egluro y byddai'n hoffi edrych nawr ar yr effaith y byddai cyflwyno CDE yn gallu ei chael ar ei ymddygiad siopa.

Ar sail beth rydw i wedi'i ddweud wrthyf chi hyd yn hyn, sut rydych yn meddwl y byddai cyflwyno Cynllun Dychwelyd Ernes yn gallu dylanwadu ar eich dewis o alcohol i'w brynu, neu'r mathau o becyn rydych yn ei brynu ynddyn nhw?

Bydd y cymedrolwr yn cyflwyno senarios gan ddefnyddio'r sleid gyflwyno [sleid 2].

Gofynnwch i'r cyfranogwr a oes unrhyw gwestiynau ganddo cyn dechrau.

Dangos senario 1 [sleid 3]: Y sefyllfa bresennol (5 munud)

[Y cymedrolwr i adael i'r ymatebydd gael amser i edrych ar yr opsiynau]

Pa un sy'n apelio fwyaf at ei gilydd

- Allwch chi ddisgrifio i mi beth wnaeth i chi ddewis hwn yn hytrach na'r lleill (hoff fath, ABV, pris manwerthu, pris y litr etc)

[Y cymedrolwr i gyfeirio'n ôl at yr achlysuron yfed a phrynu a grybwyllwyd yn gynharach] Pa un fyddech yn ei ddewis yn y sefyllfaoedd roeddech chi wedi sôn amdanyn nhw'n gynharach...

- Allwch chi egluro i mi pam byddech yn fwy tebygol o ddewis [y cynnyrch] bryd hynny

[Am yr un a ddewiswyd] A sut byddech yn yfed hwn fel arfer. Efallai y gallech chi sôn wrthyf i am y tro diwethaf i chi brynu

Dangos senario 2 [sleid 4]: CDE 20c (10 munud)

[Y cymedrolwr i adael i'r ymatebydd gael amser i edrych ar yr opsiynau]

Pa un sy'n apelio fwyaf at ei gilydd nawr [holwch am resymau]

- [Os oedd wedi dewis cynnyrch gwahanol i'r un yn y senario cyntaf] Allwch chi ddisgrifio i mi pam roeddech wedi dewis y cynnyrch hwn yn hytrach na'r un roeddech wedi'i ddewis y tro diwethaf?

- Allwch chi ddisgrifio i mi beth wnaeth i chi ddewis hwn yn hytrach na'r lleill (hoff fath, ABV, pris manwerthu, pris y litr etc)

[Y cymedrolwr i gyfeirio'n ôl at yr achlysuron yfed a phrynu a grybwyllwyd yn gynharach] Pa un fyddech yn ei ddewis nawr yn y sefyllfaoedd roeddech chi wedi sôn amdanyn nhw'n gynharach ... a pham?)

- Allwch chi egluro i mi pam byddech yn fwy tebygol o ddewis [y cynnyrch] bryd hynny?

Beth am yr ernes ad-daladwy? (Am y swm hwn, a fyddech yn dychwelyd y deunydd pacio)

- Pa rai fyddech chi'n eu dychwelyd (unrhyw rai na fyddech yn eu dychwelyd). Ar beth y gallai hyn ddibynnu?

Roeddech wedi sôn y byddech yn prynu_____ Sut byddech chi'n yfed hwn [holwch am y maint a yfir]

Yn gyffredinol, pa wahaniaethau y gwnaethoch chi sylwi arnyn nhw?

Wrth gyflwyno ernes o 20c ar gynwysyddion diodydd, mae'r pris manwerthu am aml-
becynnau wedi cynyddu mwy nag ar gyfer potel sengl, er enghraifft. E.e. mae'r pris
manwerthu am becyn o 10 can cwrw wedi cynyddu £2.00 ond dim ond 20c am botel o fodca
neu win. Fodd bynnag, byddech yn gallu cael yr ernes o £2 neu 20c yn ôl. Sut rydych yn
teimlo y byddai hyn yn newid beth rydych yn ei brynu?

Dangos senario 3 [sleid 5]: CDE 30c (6 munud)

[Y cymedrolwr i adael i'r ymatebydd gael amser i edrych ar yr opsiynau]

Pa un sy'n apelio fwyaf at ei gilydd nawr [holwch am resymau]

- [Os oedd wedi dewis cynnyrch gwahanol i'r un yn y senario cyntaf neu'r ail] Allwch chi
